**CWMNI COFRESTREDIG RHIF: 07779153 (Cymru a Lloegr)**
**ELUSEN GOFRESTREDIG RHIF: 1146560**

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a

# Datganiadau Archwiliedig Ariannol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2023

**ar gyfer**

# Llenyddiaeth Cymru/Literature Wales (Cwmni Cyfyngedig drwy Warant)

BPU Cyfyngedig
Siartredig Cyfrifwyr
Archwiliwr Statudol
Radnor House
Greenwood Close
Caerdydd Giât Busnes Parc
Caerdydd
CF23 8AA

**Llenyddiaeth Cymru/Literature Wales**

## Cynnwys y Datganiadau Ariannol
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

---

.


| | Tudalen |
|---|---|
| **Adroddiad yr Ymddiriedolwyr** | 1 i 50 |
| **Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol** | 51 i 54 |
| **Datganiad o Weithgareddau Ariannol** | 55 |
| **Mantolen** | 56 i 57 |
| **Datganiad Llif Arian** | 58 |
| **Nodiadau i'r Datganiad Llif Arian** | 59 |
| **Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol** | 60 i 79 |
| **Datganiad Manwl o Weithgareddau Ariannol** | 80 i 81 |


Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

Llenyddiaeth Cymru

# Adroddiad a Chyfrifon Blynddol

## 2022/2023

ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i ben
31 Mawrth 2023



Cyflwyniad

**Llenyddiaeth Cymru** yw'r cwmni cenedlaethol sy'n datblygu Llenyddiaeth yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw Cymru sy'n **grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau** drwy lenyddiaeth. Credwn fod gan lenyddiaeth, yn ei hamrywiaeth eang, y grym i gysylltu cymunedau a dod â chysur, ysbrydoliaeth a gobaith i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Rydym yn defnyddio'r pŵer hwn, a thrwy amrywiaeth o raglenni a gwasanaethau llenyddol, i helpu i lunio a gwella ein cymdeithas, ein heconomi a'n diwylliant.

# Cynnwys


Datganiad gan Gadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Llenyddiaeth Cymru a'r Cyfarwyddwyr Artistig a Gweithredol ....3

**Crynodeb o'n Perfformiad** .... 4

**Ein Blwyddyn mewn Rhifau** .... 5

**Gwariant ar Awduron ac Artistiaid** .... 6

**Ein Blwyddyn Mewn Arian** ....7

**Ein blaenoriaethau** .... 8

- Ein blaenoriaethau: Yr Argyfwng Hinsawdd .... 9
- Ein blaenoriaethau: Iechyd a Llesiant .... 11
- Ein blaenoriaethau: Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb .... 13

**Ein Gweithgaredd** .... 16

- Mathau o Weithgarwch: Cyfranogi .... 17
- Mathau o Weithgarwch: Diwylliant Llenyddol Cymru .... 20
- Mathau o Weithgarwch: Datblygu Awduron .... 22
- Ein Sylfaen: Y Gymraeg .... 24

**Materion Gweithredol** .... 26

- Cyfathrebu .... 27
- Cyllid .... 29
- Codi arian .... 31
- Llywodraethu .... 33
- Adnoddau Dynol .... 34
- Monitro a Gwerthuso .... 36
- Risgiau .... 38
- Hwyluso yn y Sector .... 39
- Tŷ Newydd .... 41

**Ein Partneriaid 2022/2023** .... 43

**Strwythur, Llywodraethu & Rheoli** .... 45

## Datganiad gan Gadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Llenyddiaeth Cymru a'r Cyfarwyddwyr Artistig a Gweithredol

Rydym yn falch o gyflwyno ein gweithgareddau a'n gweithrediadau ar gyfer y flwyddyn 2022–2023 yn yr Adroddiad Blynyddol hwn. Bu'n flwyddyn o newid ac atgyfnerthu i Llenyddiaeth Cymru. Daeth newid pan dderbyniodd ein Prif Weithredwr hirdymor, Lleucu Siencyn, rôl strategol gyda Chyngor Celfyddydau Cymru. Roedd lansiad cyhoeddus a gweithredu ein cynllun strategol newydd ar gyfer 2022–2027 ymhlith gweithredoedd cyntaf ein cyfarwyddwyr newydd, Claire Furlong (Cyfarwyddwr Gweithredol) a Leusa Llewelyn (Cyfarwyddwr Artistig). Datblygwyd y cynllun strategol newydd ar y cyd gan staff ac ymddiriedolwyr Llenyddiaeth Cymru: mae'n atgyfnerthu ein blaenoriaethau a'n hegwyddorion ar gyfer cyd-greu prosiectau sy'n cwrdd ag anghenion awduron a chynulleidfaoedd Cymru, ac yn ymateb hefyd i'r newidiadau yn y tirlun llenyddol, diwylliannol, ac amgylcheddol.

A ninnau'n dod allan o bandemig byd-eang o dan arweinyddiaeth newydd, gwydnwch oedd thema'r flwyddyn ar gyfer ein rhaglenni creadigol a'n gweithrediadau dydd i ddydd. Mae ein rhaglenni creadigol wedi meithrin awduron gwydn ac wedi cefnogi gwydnwch cymunedau ledled Cymru, ac rydym ni fel sefydliad wedi gwreiddio ffyrdd newydd o weithio sy'n ein diogelu ar gyfer y dyfodol ac yn sicrhau cynaladwyedd. Gyda hyn mewn golwg, mae ein cynllun strategol newydd yn sicrhau bod cynrychiolaeth a chydraddoldeb yn greiddiol i'n holl waith, ac yn adeiladu hefyd ar ein hymrwymiad i herio'r argyfwng hinsawdd. Mae'r cynllun wedi ei ddylunio er mwyn cefnogi a chynnal ein hystwythder sefydliadol mewn byd ansicr, ac i siapio dyfodol cyffrous i ddiwylliant a chymunedau llenyddol Cymru. Mae manylion ein gweithgareddau a'u heffaith i'w gweld yn fanwl drwy gydol yr adroddiad hwn.

Mae ysgrifennu creadigol yn offeryn grymus i adeiladu gwydnwch. Eleni, rydym wedi gweithio gyda dros 400 o ymarferwyr llenyddol sydd, yn eu tro, wedi gweithio gyda chymunedau ar draws Cymru i ddefnyddio grym llenyddiaeth er mwyn cefnogi llesiant. Er enghraifft, yn Llanelli a Rhydaman buom yn gweithio gyda Rufus Mufasa, mewn partneriaeth â People Speak Up a Plant Dewi, i archwilio themâu mamolaeth a llesiant drwy ysgrifennu creadigol, gan esgor ar gasgliad printiedig o farddoniaeth.

Mae Bardd Cenedlaethol Cymru hefyd yn ymgorffori grym barddoniaeth, nid yn unig i ddiffinio ein cenedl ond hefyd i ymateb i ddigwyddiadau allweddol o safbwynt cenedlaethol a byd-eang. Eleni, trosglwyddodd Ifor ap Glyn yr awenau i Hanan Issa, ac mae ei chomisiwn hi i Gymdeithas Bêl-droed Cymru, 'The Crowd Gathers', yn crynhoi teimladau'r genedl wrth gyrraedd twrnament Cwpan y Byd UEFA. Cafodd y gerdd ei chyfieithu i'r Gymraeg gan Grug Muse dan y teitl 'Mae'r dorf yn ymgynnull'.

O'n cartref yn Nhŷ Newydd yng Ngwynedd rydym wedi canolbwyntio ar adeiladu sector wydn ar gyfer y dyfodol, yn bennaf drwy gyfrwng cyrsiau datblygu awduron i gefnogi'r sawl sydd, ar hyn o bryd, yn cael eu tangynrychioli yn ein tirlun llenyddol. Ymhellach, wedi blynyddoedd o gynnal gweithdai ar-lein, roeddem wrth ein bodd yn croesawu carfannau Cynrychioli Cymru i weithdai wyneb yn wyneb yn Nhŷ Newydd, nid yn unig i ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu ond hefyd i feithrin rhwydweithiau cryf ar gyfer y dyfodol.

Mae ymatebion Llenyddiaeth Cymru i'r newidiadau cyson ein byd dros y flwyddyn ddiwethaf – byw drwy'r pandemig, costau byw cynyddol, a'r argyfwng hinsawdd – wedi tanlinellu'r effaith gadarnhaol ddwys mae ymwneud â llenyddiaeth yn gallu cael ar awduron a chynulleidfaoedd. Fel Cadeirydd ac arweinwyr y sefydliad, hyderwn fod ein gwaith, gyda'n gilydd ac mewn cydweithrediad ag eraill, yn parhau i wireddu ein bwriad strategol o greu cenedl lle mae llenyddiaeth yn grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau.


Cathryn Charnell-White
Cadeirydd

Claire Furlong
Cyfarwyddwr Gweithredol

Leusa Llewelyn
Cyfarwyddwr Artistig

Llenyddiaeth
Cymru
Literature
Wales

# Crynodeb o'n Perfformiad
## 2022/2023



Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Llenyddiaeth Cymru

## Ein Blwyddyn mewn Rhifau 2022/2023

**662,038** o argraffiadau ar draws ein sianeli cyfryngau cymdeithasol.

**£22,190** wedi'i ddosbarthu i drefnwyr digwyddiadau llenyddol ledled Cymru drwy Cronfa Ysbrydoli Cymunedau.


**13,000** o olygfeydd tudalen o'n hadnoddau ar-lein sy'n rhad ac am ddim i awduron.

**13,000** o olygfeydd tudalen o broffiliau awduron ar ein Rhestr Awduron Cymru.


Cyflogwyd **407** o awduron llawrydd, gyda ffi gyfartalog o **£1,291**

Treuliwyd dros **800** awr o amser staff yn cefnogi unigolion a sefydliadau.

Croesawyd **368** o awduron i'n Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd o Gymru, y DU a thu hwnt.



# Llenyddiaeth Cymru
## Gwariant ar Awduron ac Artistiaid 2022/2023



Llenyddiaeth Cymru Literature Wales



# Ein Blaenoriaethau
## 2022/2023











# Ein blaenoriaethau: Yr Argyfwng Hinsawdd
## Ein Blwyddyn 2022/2023

**Ein Nod:** Byddwn ni'n defnyddio creadigrwydd i addysgu, archwilio a herio, gan wella gwybodaeth pobl am yr argyfwng hinsawdd ac ysgogi newid sy'n para.

**Canlyniadau**
I gyflawni'r nod hwn, rydyn ni wedi gwreiddio tri chanlyniad allweddol yn ein gwaith. Mae'r canlyniadau hyn yn croestorri drwy ein holl raglen greadigol, fel y gwelir yn yr enghreifftiau canlynol:

**Rhoi mwy o wybodaeth a hyder i artistiaid i ddefnyddio thema'r argyfwng hinsawdd yn eu gwaith creadigol:** Mae gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau sy'n arbenigo yn yr argyfwng hinsawdd a natur yn hollbwysig er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn. Yn ystod y flwyddyn, rydyn ni wedi creu partneriaethau â sefydliadau fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, WWF a Cyfoeth Naturiol Cymru, gan ddefnyddio'u harbenigedd a'u rhwydweithiau i wella gweithgareddau llenyddol. Er enghraifft, cafodd yr artistiaid Grug Muse a Durre Shahwar eu penodi yn awduron preswyl Natur a Ni, gan weithio am flwyddyn gyda chyfranogwyr sy'n aml yn cael eu cau allan o sgyrsiau am yr argyfwng hinsawdd, fel ffermwyr er enghraifft. Gan gnoi cil am y profiad, meddai Durre:

*"Rhoddodd hyn gydnabyddiaeth i mi am y gwaith rwy'n ei wneud yn y maes hwn. Fe wnaeth fy annog i wneud cais am Gymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol, a rhoi cyfle i mi drin a thrafod syniadau eraill a datblygu at y dyfodol"*

**Codi ymwybyddiaeth o'r argyfwng hinsawdd yng Nghymru:** Drwy gydol y flwyddyn fe wnaethon ni gyflwyno cyfleoedd creadigol a sgwrsio'n uniongyrchol â chymunedau am faterion lleol sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd. Er enghraifft, roedd **Tirweddau Telynegol** mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru yn annog 350 o blant ledled Cymru i drin a thrafod materion lleol sy'n ymwneud â'r hinsawdd, fel erydu arfordirol a thanau gwyllt. Gweithiodd 12 o ysgolion gyda Casi Wyn, Bardd Plant Cymru, a Connor Allen, y Children's Laureate Wales, i greu cerddi'n ymateb i'r pethau roedden nhw wedi'u dysgu.

**Cyfrannu at wytnwch cymunedau drwy lenyddiaeth:** Yn aml, gall cymunedau deimlo bod cryn led braich rhyngddyn nhw a'r penderfyniadau sy'n newid eu tirwedd leol neu eu perthynas â'r dirwedd honno. Mae Llenyddiaeth Cymru yn credu y gall ysgrifennu creadigol fod yn fodd o ysgogi sgyrsiau a gwella dealltwriaeth pobl. Yn ystod hydref 2022, cafodd disgyblion o Ysgol Gynradd Ffynnon Taf gymorth i fynegi eu teimladau a'u cysylltiadau â chynllun Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu canolfan newydd i Fetro De Cymru yn Ffynnon Taf, a hynny drwy ysgrifennu creadigol a darlunio. Dysgodd y disgyblion am bwysigrwydd teithio llesol i'r amgylchedd, gan ddathlu pa mor unigryw yw eu hardal drwy drin a thrafod chwedlau lleol.

## Prosiect Nodedig: Llên Mewn Llê

Bu **Iola Ynyr**, yr artist a'r ymarferydd creadigol, yn cynnal cyfres o weithdai fel rhan o brosiect o'r enw **Gwledda**. Gan weithio gyda chymuned ehangach Ysgol Rhosgadfan yng Ngwynedd, chwiliodd y grŵp am ysbrydoliaeth o'r newidiadau a welir ym myd natur. Ar ôl cael sgyrsiau gan arbenigwyr ar yr hinsawdd o GwyrddNi ac Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, aeth y cyfranogwyr ati i greu pamffled o ysgrifennu creadigol. Rhannwyd

hwn mewn digwyddiad yn neuadd yr ysgol, lle coginiodd y cyfranogwyr bryd o fwyd gan ddefnyddio cynhwysion o’r tir. Disgrifiodd clare e potter, mentor Iola, y profiad hwn:

> *“Dyma greu llefydd diogel i bobl fod yn greadigol fregus, cyn magu cryfder a defnyddio’r creadigrwydd yn rym ac yn llais i wahodd pobl eraill i mewn. Mae’n ddemocrataidd ac yn radical!”*

Cynhaliodd Siôn Tomos Owen sesiynau adrodd straeon, ysgrifennu creadigol a darlunio yn Nhreherbert gyda grŵp cymorth ar gyfer pobl sy’n cael anawsterau â’u hiechyd meddwl. Mae Siôn yn dal i ddatblygu’r sgyrsiau yn ddyddiadur mwy o faint sy’n cynnwys darluniau. Mewn erthygl blog yn cnoi cil am brosiect Ffrwyth ein Tân, mae Siôn Tomos Owen yn cofio K, un o’r cyfranogwyr. Gŵr tawel oedd hwn gan amlaf, yn gwneud dim mwy na gwenu’n nerfus a gwrando. Yna fe gyfrannodd at un o’r sesiynau:

> *[Meddai K:] “Am flynyddoedd, roeddwn hi’n ei chael hi’n anodd teimlo fel fi fy hun eto. Ond mae dod yma wedi helpu cymaint. Mae bod allan yn yr awyr agored, clywed y cerddi ac arogleuo’r tân yn gwneud i mi deimlo’n iachach fy meddwl, ac yn ddigon da i siarad am y peth, gan fy mod i’n teimlo’n ddigon diogel yn gwneud hynny nawr.”*

## Gwersi i’w Dysgu a’r Dyfodol

**Gwaith marchnata:** Drwy Llên mewn Lle, fe welson ni fod cyfranogwyr weithiau’n amharod i ymwneud â phrosiect sy’n canolbwyntio ar yr hinsawdd, gan ei fod yn teimlo’n bwnc mor llethol. Yn y dyfodol, felly, byddwn ni’n ceisio marchnata mewn ffordd sy’n canolbwyntio ar elfennau prosiectau sy’n ymwneud â’r gymuned ac ysgrifennu creadigol.

**Rhoi cyfleoedd dysgu i hwyluswyr:** Rydyn ni wedi gweld bod awduron yn aml yn teimlo bod disgwyl iddyn nhw fod yn ‘arbenigwyr’ ar yr hinsawdd. Yn y dyfodol, felly, byddwn ni’n ceisio cynnwys mwy o sesiynau sy’n cael eu harwain gan wyddonwyr hinsawdd a chreu astudiaethau achos ac adnoddau i awduron ynghylch sut i gynnwys materion sy’n ymwneud â’r hinsawdd yn rhan o sesiynau ysgrifennu creadigol.

**Diogelu:** Pan fydd awduron yn gweithio’n agos gyda’r cymunedau lle maen nhw’n byw, gall hynny arwain at risgiau o ran diogelu. Y flwyddyn nesaf, bydd rhoi hyfforddiant i artistiaid ynghylch llesiant a ffiniau proffesiynol yn flaenoriaeth.







Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Ein blaenoriaethau: Iechyd a Llesiant
## Ein Blwyddyn 2022/2023

**Ein Nod:** Cefnogi llesiant unigolion a chymunedau, gan ddefnyddio potensial iachaol llenyddiaeth i gryfhau gwasnaethau.

**Canlyniadau**

I gyflawni'r nod hwn, rydyn ni wedi gwreiddio tri chanlyniad allweddol yn ein gwaith. Mae'r canlyniadau hyn yn croestorri drwy ein holl raglen greadigol, fel y gwelir yn yr enghreifftiau canlynol:

**Darparu gweithgareddau llenyddol sy'n ceisio rhoi hwb i hyder pobl ac sy'n eu hannog i'w mynegi'u hunain.** Gall annog pobl i ddefnyddio geiriau'n greadigol fod yn hollbwysig wrth eu galluogi nhw i'w mynegi'u hunain ac i fagu hyder. Roedd ein prosiect O Mam Fach yn un o gyfres o waith comisiwn i awduron a ddarparwyd mewn partneriaeth â Choleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru, People Speak Up a Plant Dewi. Creodd y prosiect le diogel i famau brosesu'r pandemig drwy farddoniaeth, gan ddefnyddio geiriau i gychwyn protest heddychlon sy'n herio syniadau cyffredinol pobl ynghylch yr hyn y mae bod yn fam yn ei olygu. Arweiniodd y prosiect at gynhyrchu dau lyfr wedi'i argraffu: *The Frontline Collection,* sef blodeugerdd o waith gan dros 35 o bobl sy'n cnoi cil am eu profiadau o fod yn fenywod, a *Ruffling Feathers,* casgliad o gerddi gan Louise Bretland-Treharne.

**Eirioli dros lenyddiaeth fel ffordd o hybu iechyd a llesiant, a chreu partneriaethau â sefydliadau o'r sector iechyd:** Mewn partneriaeth â Mind Casnewydd, gyda nawdd gan Comic Relief, darparodd Darn wrth Ddarn 47 o sesiynau a ddenodd 231 o fynychwyr. Roedd hyn yn cynnwys wyth o sesiynau dan arweiniad Duke Al Durham yn Ysgol Bassaleg gyda disgyblion blwyddyn 7 sy'n cael anawsterau â'u hiechyd meddwl. Defnyddiodd y myfyrwyr farddoniaeth a darlunio fel ffordd o'u mynegi'u hunain, a bu staff o Mind Casnewydd yn llywio trafodaethau am iechyd meddwl a chreu amgylchedd dysgu cadarnhaol. Daeth y prosiect i ben drwy greu llyfryn o gerddi a darluniau'r myfyrwyr o'r enw 'Masking Our Fears Away'.

**Annog pobl i ymwneud â thirweddau a byd natur lleol drwy lenyddiaeth ac ysgrifennu creadigol:**

Prosiect peilot chwe mis oedd Llên mewn Lle, a gynhaliwyd mewn partneriaeth â WWF Cymru. Bu'r hwyluswyr creadigol, Iola Ynyr a Siôn Tomos Owen yn arwain gweithdai ysgrifennu creadigol i gymunedau, gan drin a thrafod eu hecosystemau lleol. Gyda'i gilydd, fe wnaethon nhw gyrraedd 225 o gyfranogwyr mewn 25 o sesiynau, gyda'r cyfranogwyr hynny'n magu hyder drwy rannu eu profiadau a'u straeon personol. Mae'r grwpiau wedi trwytho'u hunain yn eu hamgylcheddau lleol, gan feithrin gwybodaeth gan bartneriaid lleol eraill fel Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, GwyrddNi a Crop Cycle. Yn ogystal ag ysgrifennu creadigol, roedd y gweithgareddau'n cynnwys plannu coed, trin a thrafod cylchoedd oes carbon, a dysgu am ffyrdd o dyfu bwyd sy'n llesol i'r amgylchedd.

## Prosiect Nodedig: Gwaith Comisiwn i Awduron

Ar gyfer pedwaredd rownd ein Gwaith Comisiwn i Awduron fe wnaethon ni greu partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn comisiynu pedwar prosiect ysgrifennu creadigol sy'n edrych ar y cysylltiad rhwng llenyddiaeth, llesiant a'r amgylchedd naturiol. Roedd un o'r comisiynau, Coeden Ysgrifennu, yn helpu mamau newydd a'u partneriaid i wella'u llesiant eu hunain a chysylltiad y teulu newydd â byd natur drwy ymdrochi mewn coedwigoedd a gweithdai ysgrifennu creadigol. Cafodd y prosiect ei gynnal gan Wasanaeth Iechyd Meddwl Amenedigol Arbenigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, sy'n gweithio gyda mamau beichiog a mamau sydd wedi rhoi genedigaeth ac wedi profi anawsterau iechyd meddwl sylweddol, neu sy'n wynebu risg o gael pwl arall yn ystod y cyfnod amenedigol. Cyn pob sesiwn, gofynnwyd i'r cyfranogwyr ddefnyddio tri gair i ddisgrifio'u hunain fel rhieni. 'Gorbryderus' oedd y gair mwyaf cyffredin cyn y prosiect. 'Cariadus' oedd y gair mwyaf cyffredin ar ôl i'r prosiect ddod i ben.

## Gwersi i'w Dysgu a'r Dyfodol

**Llesiant staff ac artistiaid:** Mae hyn wedi bod yn ystyriaeth fel rhan o brosiectau Iechyd a Llesiant, gydag Ar y Dibyn yn rhoi sesiynau cwnsela'n rhad ac am ddim i staff ac artistiaid.

**Hyfforddiant :** Ar ôl cael adborth gan artistiaid a hwyluswyr sy'n gweithio mewn cymunedau, rydyn ni'n gwybod y byddai'r sector yn elwa o gael rhagor o hyfforddiant sgiliau. Byddwn ni felly'n datblygu gweithdy newydd ym maes diogelu i artistiaid sy'n gweithio mewn cymunedau.

**Dysgu gan y sector:** Yn 2022/23, cyfarfu'r staff ag Astrid Breel, Cymrawd Ymchwil Effaith ym Mhrifysgol Bath Spa, i drafod sut i gasglu data'n foesegol wrth geisio canfod canlyniadau iechyd a llesiant, a hynny pan na bwrdd iechyd yn rhan o'r gwaith ac felly ar gael i roi cymorth ychwanegol. Yn y prosiectau hyn, mae Llenyddiaeth Cymru bellach yn casglu data am deimladau yn hytrach na data ar system rifol fel WEBMIS.







# Ein blaenoriaethau: Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb
## Ein Blwyddyn 2022/2023

**Ein Nod:** Byddwn ni'n creu sector sy'n cefnogi mynediad teg i bawb drwy fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hanesyddol a strwythurol a rhoi llwyfan i leisiau amrywiol.

**Canlyniadau**

I gyflawni'r nod hwn, rydyn ni wedi gwreiddio tri chanlyniad allweddol yn ein gwaith. Mae'r canlyniadau hyn yn croestorri drwy ein holl raglen greadigol, fel y gwelir yn yr enghreifftiau canlynol:

**Creu cyfleoedd newydd i artistiaid a chyfranogwyr o gymunedau sy'n cael eu tangynrychioli:**
Mewn partneriaeth â Tŷ Cerdd, Hyaat Women Trust a Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, fe wnaethon ni gefnogi llwybr datblygu i artistiaid o gefndir Somali, a'r rheini'n arbenigo mewn amrywiaeth o feysydd. Cymerodd yr artistiaid ran mewn pedwar gweithdy datblygu, gan gynnwys arddangosfa i gynulleidfa o 120. At hynny, rhoddodd ein cwrs strategol, (Ail)Sgwennu Cymru, gymorth i 14 o awduron sy'n arddel hunaniaeth pobl o gefndiroedd sy'n cael eu tangynrychioli wrth iddyn nhw greu ysgrifau ar thema Cymreictod a Hunaniaeth. Cafodd y grŵp weithdai gyda Darren Chetty ac Iestyn Tyne, ynghyd â gwrando ar ddarlleniadau gan yr awduron gwadd, Hanan Issa, Grug Muse a Mike Parker.

**Cefnogi nod Cymru Wrth-hiliol 2030 Llywodraeth Cymru:** Roedd ein prosiect, Cymru Ni, yn cefnogi'r argymhellion a geir yn adroddiad yr Athro Charlotte Williams, "Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd". Gwnaeth hyn yn gyntaf drwy gynnig gweithdai am ddim i ysgolion gan awduron o Gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, a'r rheini'n trafod pynciau ynghylch hil a hunaniaeth, ac yna drwy weithdai wedi'u hariannu'n llawn a oedd wedi'u curadu gan awduron o liw. Cafwyd adborth cadarnhaol, gyda **100%** o'r ysgolion yn dweud eu bod wedi elwa o'r sesiynau creadigol, **100%** o'r athrawon yn dweud y gallen nhw gyflwyno rhan o'r sesiwn yn eu gwaith addysgu eu hunain, a **99%** yn dweud bod llenyddiaeth/ysgrifennu creadigol yn help wrth drin a thrafod pynciau mwy cymhleth. Fe wnaethon ni hefyd helpu artistiaid i weithio yn eu cymunedau nhw eu hunain. Er enghraifft, fel rhan o un o'n prosiectau Gwaith Comisiwn i Awduron, mewn partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru ac Aurora Trinity Collective, bu Taylor Edmonds a Nasia Sarwar-Skuse yn helpu 10 menyw o liw, a thrwy hynny eu plant, drwy ymweld â safleoedd byd natur yng Nghaerdydd cyn dilyn hynny â gweithdai ysgrifennu creadigol.

**Gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o fanteision creu gweithlu llenyddol amrywiol:** Mae'r Gronfa Ysbrydoli Cymunedau yn rhoi cyllid i sefydliadau drefnu digwyddiadau llenyddol a dysgu drwy lenyddiaeth ac ysgrifennu creadigol. Yn 2022/23, defnyddiwyd y gronfa gan yr Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd ym Mhrifysgol Bangor i gynnal sesiwn cwestiwn ac ateb gyda'r awdur Horatio Clare ar y pwnc, 'Living through Madness, Mania and Psychosis'. Roedd y sesiwn yn galluogi myfyrwyr iechyd meddwl i ystyried effaith therapiwtig ysgrifennu creadigol fel rhan o'u hymarfer eu hunain. Cafodd y sesiwn ei recordio hefyd, a bydd yn cael ei defnyddio fel adnodd addysgu am flynyddoedd i ddod.

Fel rhan o'n rhaglen o ddigwyddiadau yn y Senedd, bu artistiaid yn dangos fis Chwefror sut y gall barddoniaeth fod yn hwb i iechyd a llesiant pobl. Denodd y digwyddiad dros 100 o westeion, ac ymhlith y pynciau amrywiol roedd goresgyn trawma, delio â diabetes ac anhwylder gorfodaeth obsesiynol, a byw â dementia. Yr artistiaid oedd Rufus Mufasa, Esyllt Maelor, Patrick Jones a Duke Al Durham.

Yn ystod y flwyddyn, mae staff Llenyddiaeth Cymru wedi gofyn am gyngor gan sefydliadau eraill. Er enghraifft, treuliodd y staff 18 awr yn ymgynghori â sefydliadau fel Celfyddydau Anabledd Cymru a'r Scottish Book Trust, er mwyn datblygu galwad a rhaglen agored a hygyrch ar gyfer trydydd rownd Cynrychioli Cymru, ein Rhaglen Datblygu i Awduron. Treuliodd y staff hefyd dros 520 awr yn rhannu gwybodaeth â sefydliadau ac awduron fel ei gilydd, er enghraifft drwy gynghori pobl ynghylch sut i ddatblygu digwyddiadau gan awduron o gymunedau LHDTCA+, ble y gallai awduron anabl ganfod cyfleoedd, a datblygu cynllun newydd ar gyfer y sector gyda'r cwmnïau celfyddydol cenedlaethol eraill.

## Prosiect Nodedig: Cynrychioli Cymru

Yn 2022/2023, rhoddodd ein rhaglen datblygu proffesiynol, Cynrychioli Cymru, lwyfan i'n hail grŵp o awduron, sef awduron sy'n dod o gefndiroedd incwm isel. Dros y flwyddyn, mae'r awduron wedi cymryd rhan mewn **naw** gweithdy, **pedwar** dosbarth meistr a **70** o sesiynau mentora, gyda **chwech** o'r sesiynau hyn yn agored i'r cyhoedd. Treuliodd **saith** aelod o'r grŵp **120 awr** ar gwrs dysgu Cymraeg hefyd, a gynhaliwyd mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac a ariannwyd drwy'r cynllun Cymraeg Gwaith. Ers bod yn rhan o'r rhaglen, dywedodd 100% fod eu dealltwriaeth o'r diwydiant cyhoeddi wedi gwella; teimlai 100% fod y rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar eu gwaith ysgrifennu creadigol; ac mae 54% wedi cael cynnig cyfleoedd neu gomisiynau ysgrifennu drwy fod yn rhan o'r rhaglen.

Yn ystod 2022/23, parhawyd i roi cymorth ôl-ofal i'n grŵp cyntaf o awduron a fu'n rhan o'r rhaglen ddatblygu, sef awduron o liw, a hynny ar ffurf sesiynau mentora ychwanegol. Aeth nifer o awduron yn eu blaenau i ddathlu llwyddiannau amrywiol. Er enghraifft, fis Medi, bu Phil Okwedy yn cynnal cwrs preswyl dros benwythnos am adrodd straeon yn Nhŷ Newydd, a hynny gyda Daniel Morden. Cafodd Shara Atashi ei dewis gan Ifor ap Glyn, Bardd Cenedlaethol Cymru ar y pryd, i gymryd rhan yn y prosiect Swdocw Iaith, a hwnnw'n dathlu'r ieithoedd niferus sydd yng Nghymru wrth i feirdd gyfieithu gwaith ei gilydd. Cafodd Hanan Issa ei henwi yn Fardd Cenedlaethol Cymru 2022-25 a rhannodd Taz Rahman newyddion cyffrous ar Twitter:

> *"Delighted to announce my first poetry collection with @SerenBooks in February 2024. Thanks @LitWales for the 2021 writer development award & @ZoeBrigley's mentorship"*

Yn dilyn llwyddiant ein cwrs strategol, Stori i Bawb, ac wrth ymateb i'r gwaith ymchwil a ddangosai'n gwbl amlwg y diffyg amrywiaeth mewn llenyddiaeth i blant, canolbwyntiom Cynrychioli Cymru 3, sy'n datblygu awduron sydd wedi'u tangynrychioli yn y genre, ar awduron sy'n ysgrifennu ar gyfer plant ac oedolion ifanc.

## Gwersi i'w Dysgu a'r Dyfodol

**Gwneud mwy o bobl yn gymwys:** Wrth ddatblygu trydedd rownd ein rhaglen datblygu proffesiynol, Cynrychioli Cymru, fe wnaethon ni sylweddoli bod categoreiddio'n benodol sut mae awduron wedi'u tangynrychioli (fel awduron o liw neu awduron o gefndiroedd incwm

isel) yn golygu y gallai awduron orfod aros blynyddoedd tan y bydden nhw'n gymwys. Ers hynny, rydyn ni wedi gwneud mwy o bobl yn gymwys, a byddwn ni'n parhau i wneud hynny, gan sicrhau bod ein cyfleoedd wedi'u seilio ar dalent yn hytrach nag yn llwyr ar un nodwedd sy'n cael ei thangynrychioli.

**Cymunedau fel trefnwyr:** Byddwn ni'n parhau i weithio gyda chymunedau ar lawr gwlad, ac yn parhau i wrando arnyn nhw, i sicrhau bod ein cymorth yn berthnasol i anghenion penodol y cymunedau hynny.

**Mapio'r sector:** Byddwn ni'n parhau i ddatblygu ein perthnasau â sefydliadau llenyddol eraill fel Book Trust Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru, a cyhoeddwyr, er mwyn canfod bylchau mewn darpariaeth a sicrhau bod yr hyn rydyn ni'n ei gynnig yn angenrheidiol ac yn berthnasol. Y nod fydd parhau i greu ecosystem ffyniannus a llwybr clir i leisiau newydd a lleisiau sy'n dod i'r amlwg.

# Ein Gweithgareddau 2022/2023











# Mathau o Weithgarwch: Cyfranogi
## Ein Blwyddyn 2022/2023

**Ein Nod:** Byddwn ni'n galluogi mwy o bobl yng Nghymru i fwynhau mynd ati i gyfranogi mewn llenyddiaeth.

**Canlyniadau**

I gyflawni'r nod hwn, rydyn ni wedi gwreiddio tri chanlyniad allweddol yn ein gwaith. Mae'r canlyniadau hyn yn croestorri drwy ein holl raglen greadigol, fel y gwelir yn yr enghreifftiau canlynol:

**Cynyddu nifer y gweithgareddau llenyddol o ansawdd da sy'n cael eu cynnal mewn cymunedau lleol ledled Cymru:**
Er enghraifft, cynyddwyd ein buddsoddiad i'n Cronfa Ysbrydoli Cymunedau, a roddodd gymorth i 115 o ddigwyddiadau ledled Cymru. Hefyd, mewn partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru, fe wnaethon ni benodi dau Fardd Preswyl – Durre Shahwar a Grug Muse – i ymateb yn greadigol i sgwrs genedlaethol am ddyfodol amgylchedd naturiol Cymru. Y nod oedd datblygu cyd-weledigaeth ar gyfer y flwyddyn 2050, drwy annog pobl i ganfod mwy am sut y mae ein gweithredoedd ni'n effeithio ar y byd naturiol a sut y mae angen i'n perthynas ni â byd natur newid. Cynhaliodd Durre un gweithdy arlein ac un yn ei mosg lleol, tra cafodd Grug sgyrsiau wyneb yn wyneb â phedwar o ffermwyr sy'n siarad Cymraeg yn y gogledd. Defnyddiwyd y cerddi mewn adroddiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru, fel rhan o ffilm i ddathlu, ac maen nhw i'w gweld ar wefan Llenyddiaeth Cymru.

**Helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu creadigol:**
Mae nifer o'n prosiectau yn gweithio mewn ysgolion i helpu dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu creadigol. Rhaglen o bwys a ddaeth i ben ym mis Gorffennaf 2022 oedd 'Do You Get Me'. Treuliodd Eloise Williams, y Children's Laureate Wales gynt, gyfnod preswyl o flwyddyn yn Ysgol Tonyrefail, gan ddangos bod oedran darllen safonol y disgyblion wedi codi flwyddyn a 4 mis o ganlyniad i'r prosiect. Ers hynny, mae Ysgol Tonyrefail wedi cyflogi Hyrwyddwr Darllen amser llawn i barhau i godi oedrannau darllen myfyrwyr yr ysgol, ac wedi sefydlu Academi Awduron i ddisgyblion sydd eisiau canolbwyntio ar eu hysgrifennu creadigol. Ers hynny, mae 'Do You Get Me' wedi dod yn batrwm i gynllun Angori, mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd, gyda'r artist Sioned Erin Hughes yn meithrin hyder disgyblion yn y Gymraeg ym Mhorthmadog.

*"Roedd gen i ddychymyg pan oeddwn i'n iau, ond fe ddiflannodd. Wrth weithio gydag Eloise, fe ddaeth fy nychymyg yn ei ôl"*

- Connor, Blwyddyn 7

**Helpu plant a phobl ifanc i deimlo'u bod nhw wedi'u grymuso drwy feithrin hyder mewn ysgrifennu creadigol:** Cyfrannodd Bardd Plant Cymru a'r Children's Laureate Wales yn sylweddol iawn at y canlyniad hwn, gan ymweld â dros 2,000 o blant drwy Gymru yn ystod y flwyddyn. Roedd y prosiectau'n amrywiol iawn, ac yn eu plith roedd gwaith yn ystod Wythnos Iechyd Meddwl Plant, lle bu'r Children's Laureate, Connor Allen, a Duke Al Durham yn gweithio gyda 60 o blant o 11 o ysgolion i drafod themâu'n ymwneud â chymuned, cysylltiadau a hunaniaeth mewn perthynas â'u hiechyd meddwl.

Dywedodd un o'r athrawon o ysgol a gymerodd ran:

*"Roedd y gweithdai'n fodd o annog y plant i feddwl am eu hiechyd meddwl mewn lle cefnogol a chreadigol."*

– **Ysgol Gynradd Parc Ninian**

**Allbynnau:**

Yn 2022/2023, darparodd Llenyddiaeth Cymru bron i **500 o sesiynau cyfranogol,** gyda dros **14,000 yn mynychu**.

## Prosiect Nodedig: Cronfa Ysbrydoli Cymunedau

Yn 2022/23, parhaodd y Gronfa Ysbrydoli Cymunedau i alluogi cymunedau lleol i drefnu, cynnal a mwynhau amrywiaeth o weithgareddau llenyddol. Mae'r gronfa'n cynnig cymorth ariannol o hyd at 50% o'r ffioedd sy'n cael eu talu i awduron mewn digwyddiadau llenyddol, gan gynnwys sgyrsiau, darlithoedd, gweithdai ysgrifennu creadigol a mwy. Prif nod y cynllun yw galluogi cynnal digwyddiadau llenyddol na fyddai o bosibl yn digwydd fel arall, ac ysbrydoli cynulleidfaoedd ledled y wlad, gan roi cyfleoedd iddyn nhw gymryd rhan yn niwylliant llenyddol Cymru a chyfrannu ato. Parhaodd y gronfa i gefnogi gweithgareddau sy'n cyd-fynd â thair blaenoriaeth Llenyddiaeth Cymru: yr Argyfwng Hinsawdd, Iechyd a Llesiant, a Chynrychiolaeth a Chydraddoldeb. Er enghraifft, eleni fe wnaethon ni ariannu'r canlynol:

- 'Storytelling Under the Starts' gyda Daniel Morden, yng Ngŵyl Awyr Dywyll Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
- Cwrs ysgrifennu creadigol ar gyfer merched o liw rhwng 14 ac 17 oed gyda Nasia Sarwar-Skuse
- Sesiwn cwestiwn ac ateb gyda Horatio Clare wedi'i threfnu gan yr Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd ym Mhrifysgol Bangor, i drafod ei hunangofiant, *Heavy Light*, sy'n sôn am ei broblemau iechyd meddwl a'i wellhad. Bydd recordiad o'r sesiwn yn cael ei ddefnyddio fel adnodd addysgu ar gyfer myfyrwyr meddygol am flynyddoedd i ddod.

At hynny, fe wnaethon ni barhau i gefnogi amrywiaeth o raglenni cymdeithasau llenyddol Cymraeg drwy Gymru, gan gynnwys Cylch Llên Llanfairpwll; Cymdeithas Ceredigion, Cylch Llenyddol Bro Ddyfi; Cylch Llenyddol Idris, a mwy.

## Gwersi i'w Dysgu a'r Dyfodol

**Mwy o ddigwyddiadau llenyddol:** Yn ein harolwg rhanddeiliaid diweddar, teimlai 91% o unigolion y byddai eu cymuned yn elwa o gael mwy o ddigwyddiadau llenyddol. Yn y dyfodol, byddwn ni'n cynnal archwiliadau mewnol er mwyn i'n cynnig ganolbwyntio ar gymunedau nad ydyn nhw efallai'n ymwybodol o'r gronfa hon. Yn 2023/24, byddwn ni'n mireinio'r broses ymgeisio ac yn gwella'r gwaith o farchnata'r gronfa er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd.

**Eirioli dros lenyddiaeth:** Byddwn ni'n parhau i eirioli dros lenyddiaeth ymhlith sefydliadau nad ydyn nhw'n arbenigo yn y maes hwn. Yn 2022/23, treuliodd y staff dros 40 awr yn rhannu gwybodaeth am rym llenyddiaeth, gan arwain at bartneriaethau, prosiectau a chynulleidfaoedd newydd.

**Cyfathrebu:** Mae'r llwyddiant wrth gyfathrebu ag ysgolion a chasglu adborth wedi bod yn amrywiol yn ystod y flwyddyn. Byddwn ni'n parhau i ddatblygu perthnasau ag ysgolion, gan sicrhau bod ein disgwyliadau ar gyfer ymatebion ac adborth yn glir cyn i weithgareddau ddechrau.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Mathau o Weithgarwch: Diwylliant Llenyddol Cymru

## Ein Blwyddyn 2022/2023

**Ein Nod:** Byddwn ni'n dathlu amrywiaeth ein hawduron cyfoes a threftadaeth lenyddol Cymru yn y byd, drwy greu llwyfan i lenyddiaeth sy'n berthnasol ac yn agored i bawb.

**Canlyniadau**

I gyflawni'r nod hwn, rydyn ni wedi gwreiddio tri chanlyniad allweddol yn ein gwaith.  Mae'r canlyniadau hyn yn croestorri drwy ein holl raglen greadigol, fel y gwelir yn yr enghreifftiau canlynol:

**Cryfhau proffil ein beirdd cenedlaethol fel beirdd sy'n cynrychioli Cymru yn ei holl amrywiaeth:**
Yn 2022-23, bu Casi Wyn, Bardd Plant Cymru, a Connor Allen, y Children's Laureate Wales, yn parhau i gynrychioli llenyddiaeth plant yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Roedd hyn yn cynnwys ymddangosiadau mewn digwyddiadau amlwg fel Gŵyl y Gelli gyda **Áine Ní Ghlinn**, Bardd Plant Iwerddon, gan arwain at gydweithio rhwng Casi ac **Áine** i gyfieithu barddoniaeth ei gilydd rhwng y Wyddeleg a'r Gymraeg. Cafwyd ymateb brwd i'r cyhoeddiad mai Hanan Issa fyddai Bardd Cenedlaethol newydd Cymru, gyda'r Western Mail yn ei disgrifio fel "*A poet for our times*", ac un trydariad i gyhoeddi'i phenodiad yn cael ei hoffi gan **3876 o bobl** a'i aildrydaru **587 o weithiau.** Cafwyd cyfweliadau hefyd ar nifer o blatfformau yn y wasg a'r cyfryngau drwy Gymru a'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys ar BBC Radio 4 ac yn The Guardian a chylchgrawn Barddas.

**Ysbrydoli a chreu cynulleidfaoedd newydd drwy farddoniaeth, gan ei gwneud yn berthnasol i unigolion a chymunedau:** Bu'r Children's Laureate Wales, Connor Allen a Bardd Plant Cymru, Casi Wyn, yn cydweithio drwy gydol y flwyddyn i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf, gan gynnwys drwy weithio gyda 155 o ddisgyblion [i ddathlu Diwrnod Barddoniaeth ac Wythnos y Llyfrgelloedd] yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Cafodd disgyblion gyfle i glywed y beirdd yn perfformio'u cerddi, i ysgrifennu'u barddoniaeth eu hunain, ac i ofyn cwestiynau yn ystod sesiwn cwestiwn ac ateb. Drwy sesiynau digidol a wyneb yn wyneb, cyrhaeddodd y beirdd plant gynulleidfa o 2,475 o ddisgyblion a phobl ifanc mewn 73 o ysgolion ledled Cymru.

**Herio argraffiadau, a defnyddio barddoniaeth fel ffordd o ddechrau sgyrsiau cenedlaethol neu ychwanegu atyn nhw:** Eleni, mae'r beirdd cenedlaethol wedi gweithio ar amrywiaeth o weithiau comisiwn i amlygu, dathlu neu ddechrau sgyrsiau am faterion sy'n effeithio ar ein cenedl. Er enghraifft, cyhoeddodd Hanan Issa, y Bardd Cenedlaethol, y gerdd 'Dy Ddal Di' i nodi Diwrnod Alzheimer y byd. I nodi Diwrnod Gweithredu Hinsawdd Ieuenctid, bu Bardd Plant Cymru a'r Children's Laureate Wales, mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yn gweithio gyda 350 o fyfyrwyr o 12 o ysgolion gan ysbrydoli myfyrwyr i ddychmygu dyfodol eu tirweddau lleol. Roedd cynllun Cymru Ni hefyd yn cyfrannu at amcan Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru 2023 wrth i 9 awdur o liw gynnal 56 o weithdai.

## Prosiect Nodedig: Bardd Cenedlaethol Cymru

Eleni, ffarweliwyd â Bardd Cenedlaethol o fri, Ifor ap Glyn, ar ôl chwe mlynedd yn y swydd, gan drosglwyddo'r awenau i Hanan Issa yn dilyn proses recriwtio gystadleuol, agored.

Un o themâu cyson cyfnod Ifor yn y swydd oedd y dyhead i ymwneud ag ieithoedd a diwylliannau eraill, a hynny yng Nghymru ac ym mhob cwr o'r byd. Roedd yn awyddus i roi sylw i'r elfen hon drwy'i brosiect olaf yn y swydd – Swdocw Iaith – a gynhaliwyd yn haf 2022 i ddathlu ieithoedd Cymru. Comisiynwyd chwech o feirdd o Gymru i ysgrifennu cerddi yn eu hieithoedd eu hunain, cyn iddyn nhw ddod ynghyd yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd i gyfieithu gweithiau ei gilydd. Cafodd chwech o fideos barddoniaeth gwreiddiol wedyn eu creu yn Llydaweg, Almaeneg, Wrdw, Saesneg, Twrceg a Chymraeg, a chyfieithwyd ac is-deitlwyd pob un i'r ieithoedd eraill.

Yn ystod chwe blynedd Ifor ap Glyn fel Bardd Cenedlaethol Cymru, cymerodd ran mewn bron i 900 o ddigwyddiadau, ac ysgrifennodd dros 90 o gerddi comisiwn. Teithiodd dramor yn helaeth, gan rannu ein diwylliant a'n hiaith a chydweithio â beirdd o gefndiroedd amrywiol.

Mae'r swydd y bu Ifor yn ei gwneud, a swydd Hanan bellach, yn fodd o drin a thrafod diwylliant a hunaniaeth Cymru drwy lenyddiaeth. Mae hi hefyd yn esgor ar sgyrsiau rhwng cymunedau ac yn rhoi sylwebaeth am ddigwyddiadau cenedlaethol. Er enghraifft, ers ei phenodi, mae Hanan wedi ysgrifennu'r gerdd 'Cynhesu byd-eang' mewn ymateb i'r argyfwng ynni, wedi agor cynhadledd Dychmygu ein Dyfodol Cyngor Celfyddydau Cymru gyda cherdd newydd, ABCCh Hawliau Cyfartal; wedi'i phenodi yn Gymrawd Rhyngwladol Gŵyl y Gelli; wedi cymryd rhan mewn digwyddiad cenedlaethol a ddathlai ddeng mlynedd ers agor Llwybr Arfordir Cymru; ac wedi ysgrifennu cerdd a gomisiynwyd gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru i gefnogi Cymru yn ystod ymgyrch Cwpan y Byd FIFA 2022 yn Qatar.

## Gwersi i'w Dysgu a'r Dyfodol

**Y broses ar gyfer gwrthod ceisiadau:** Gan ddysgu o'r alwad i benodi'r Bardd Cenedlaethol, rydyn ni wedi cynllunio'r broses o 'wrthod' ceisiadau yn drylwyr, drwy fod yn deg, yn ystyrlon ac yn agored wrth roi adborth, a thrwy weithio ar y cyd i ganfod cyfleoedd eraill sy'n addas i ymgeiswyr aflwyddiannus. Cafodd y fformat hwn ei ddefnyddio wrth gyhoeddi'r alwad agored am Fardd Plant Cymru a'r Children's Laureate Wales.

**Diogelu:** Wrth gyhoeddi enw'r Bardd Cenedlaethol, cafodd trefniadau diogelu manwl eu creu er mwyn paratoi at lawer o sylw, ceisiadau ac unrhyw ymateb negyddol. Daeth y broses hon yn rhan hollbwysig o'r broses o benodi Bardd Plant Cymru a'r Children's Laureate Wales, er mwyn sicrhau bod pob artist yn teimlo'i fod yn cael ei gefnogi ac mewn dwylo diogel.

**Yr effaith ddilynol:** Mae gan ein beirdd cenedlaethol gontract i wneud 25 diwrnod o waith, ond yn aml byddan nhw'n cael llawer iawn o sylw a cheisiadau yn syth ar ôl y cyhoeddiad. Mae gwaith yn dal i gael ei wneud i ganfod yn well effaith eu gwaith ehangach yn sgîl cael eu penodi i'r swyddi cenedlaethol.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Mathau o Weithgarwch: Datblygu Awduron
## Ein Blwyddyn 2022/2023

**Ein Nod:** Byddwn ni'n datblygu ac yn cefnogi gweithlu medrus sy'n cynnig gweledigaeth yn y sector llenyddol, drwy ddarparu cyfleoedd i awduron, cynyddu potensial, a hyrwyddo arferion cyflogaeth teg.

**Canlyniadau**

I gyflawni'r nod hwn, rydyn ni wedi gwreiddio tri chanlyniad allweddol yn ein gwaith. Mae'r canlyniadau hyn yn croestorri drwy ein holl raglen greadigol, fel y gwelir yn yr enghreifftiau canlynol:

**Datblygu sgiliau creadigol awduron a meithrin eu hyder i ddefnyddio'r sgiliau hynny:** Yn 2022/23 fe wnaethon ni groesawu 368 o awduron ar ein cyrsiau masnachol yn Nhŷ Newydd. Roedd y rhaglen yn cynnwys amrywiaeth o themâu a genres gan gynnwys dosbarth meistr barddoniaeth yn y gwanwyn gyda Gillian Clarke a Carol Ann Duffy, ysgrifennu gwaith ffeithiol greadigol sy'n pefrio gyda Horatio Clare, a sut i ysgrifennu nofel gyda Manon Steffan Ros a Llwyd Owen. Fe wnaethon ni ddarparu wyth o gyrsiau digidol o dan faner Tŷ Newydd er mwyn ceisio ehangu mynediad wrth ddatblygu sgiliau ysgrifennu creadigol, a'r rheini wedi'u cynnal gan awduron o Gymru a'r tu hwnt. Dywedodd 100% o gynulleidfaoedd y cyrsiau hyn fod cymryd rhan yn y cwrs wedi'u helpu i fireinio'u crefft. Ers mis Ebrill 2022, cynhaliwyd naw o sgyrsiau creadigol yn rhoi sylw i amrywiaeth o sgiliau, fel sut i ddarparu gweithdai arlein cynhwysol gyda Kittie Belltree a Sara Beer, a sut i greu eich cylchgrawn neu'ch llyfr eich hun gyda'r cyhoeddwr Jannat Ahmed.

**Cynyddu'r cyfleoedd i awduron ddatblygu eu proffil a'u profiad, gan gynnwys wrth ddarparu gweithgareddau ysgrifennu creadigol a gweithdai cyfranogol:** Mae Rhestr Awduron Cymru yn adnodd arlein y bydd awduron a hwyluswyr drwy Gymru yn cyfrannu ato'u hunain i rannu gwybodaeth am bethau fel eu lleoliad, eu genre a'u manylion cysylltu. Yn 2022/23 roedd gan y rhestr 327 o broffiliau o awduron o bob rhan o Gymru. Gwnaeth y rhestr gyfraniad hollbwysig wrth dynnu sylw at awduron o Gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer ein prosiect Cymru Ni, lle gallai ysgolion gael 50% o'r ffi ar gyfer ymweliad gan awdur. Fel rhan o brosiect Cymru Ni, fe wnaethon ni roi cyfle i egin awduron fel Duke Al Durham gysgodi hwyluswyr profiadol, er mwyn meithrin eu hyder wrth greu a darparu gweithdai. Wrth gnoi cil am gynnal gweithdai am hil a hunaniaeth gyda Connor Allen, meddai Duke:

*"Roedd hi'n bleser cysgodi Connor ddoe. Rwy'n credu'n gryf bod yr hyn rwy' i a Connor wedi'i greu yn cael cryn effaith ac yn annog plant i siarad a gofyn cwestiynau am bynciau go anodd"*

**Rhoi cyfleoedd i awduron gamu i'r ris nesaf yn eu gyrfaoedd, ac i awduron profiadol rannu eu gwybodaeth a'u profiad ag egin awduron:** Rhoddodd ein rhaglen datblygu proffesiynol, Cynrychioli Cymru, gymorth dwys i 26 o awduron. Cafodd grŵp o awduron 1, sef awduron o liw a gafodd eu datblygu yn 21/22, ragor o sesiynau mentora fel rhan o'r broses ôl-ofal. Awduron o gefndir incwm isel oedd grŵp o awduron 2. Cafodd pob awdur ysgoloriaeth gwerth £3000, gan fynychu **naw** gweithdy, **wyth** ystafell ysgrifennu a **phedwar** dosbarth meistr, gyda dau ohonynt wedi cynnal ar-lein, a dau ddosbarth meistr preswyl dros benwythnosau yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd. Elwodd yr awduron o gael cymorth golygyddol ac arweiniad penodol i ddeall y diwydiant drwy dros 70 awr o sesiynau mentora

un-i-un. Ymhlith y mentoriaid yn 2022-23 roedd rhai o'r enwau mwyaf cyffrous a llwyddiannus yn niwylliant llenyddol Cymru a'r tu hwnt, fel **Sophie Mackintosh, Kerry Hudson, Patrice Lawrence, Jacob Ross**, **Cynan Jones, Niall Griffiths** ac **Eloise Williams.**

## Uchafbwynt: Cyrsiau strategol Tŷ Newydd

Cynhaliodd Llenyddiaeth Cymru **11** o gyrsiau strategol yn ystod 2022/23. Mae'r cyrsiau pwysig hyn yn cyd-fynd bob blwyddyn â'n rhaglen o gyrsiau sy'n creu incwm, ac yn cynnig cyfnodau preswyl yn rhad ac am ddim i grwpiau o awduron sy'n cael eu tangynrychioli (gan amlaf). Roedd y rhain yn cynnwys: **Stori i Bawb**, sef cwrs mewn partneriaeth â Chyngor Llyfrau Cymru ar gyfer naw o awduron Cymraeg sydd wedi'u tangynrychioli, gyda'r nod o greu straeon a chymeriadau amrywiol a chynrychioladol i blant a phobl ifanc; ac **Encil Sgiliau Sgriptio** mewn partneriaeth â Theatr y Sherman a groesawodd 12 o sgriptwyr o Gymru sydd wedi'u tangynrychioli i dreulio wythnos ar gwrs preswyl gyda'r tiwtoriaid Branwen Davies ac Alice Eklund. Fel rhan o gwrs strategol arall, buon ni'n gweithio gyda'r Eisteddfod Genedlaethol i ddod â grŵp o awduron LHDTCA+ at ei gilydd ar gyfer encil gydag **Arwel Gruffydd**. Cafodd y gwaith a grëwyd yn ystod yr encil ei berfformio'n ddiweddarach yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron.

## Gwersi i'w Dysgu a'r Dyfodol

**Datblygu hyfforddiant:** Mae awduron a hwyluswyr wedi awgrymu'n glir bod angen mwy o gymorth i ddatblygu sgiliau caled sy'n gysylltiedig ag ymarfer creadigol. Gan hynny, byddwn ni'n penderfynu ar gyfres graidd o bynciau sy'n berthnasol, fel hyfforddiant yn y meysydd diogelu a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei gynnig yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn hyfforddiant rhithwir er mwyn bod yn fwy hygyrch.

**Datblygu llwybrau datblygu proffesiynol:** Byddwn ni'n deall y pethau sy'n debyg a'r pethau sy'n wahanol yng nghynigion sefydliadau celfyddydol yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod ein cynigion datblygu yn benodol, bod galw amdanyn nhw, a'u bod nhw'n berthnasol.

**Cyhoeddi canllawiau am ffioedd teg:** Yn 2022/23, fe wnaethon ni weithio gyda Phrifysgol Aberystwyth i gynnal ymchwil i Ffioedd Awduron. Drwy gyhoeddi canllawiau am ffioedd teg i awduron, rydyn ni'n gobeithio helpu trefnwyr i gyllidebu'n effeithiol a helpu awduron i gael eu talu'n deg fel gweithwyr llawrydd.







# Ein Sylfaen: Y Gymraeg
## Ein Blwyddyn 2022/2023

**Ein Nod:** Byddwn ni'n hyrwyddo'r Gymraeg ac yn dathlu ein diwylliant Cymreig unigryw, amrywiol drwy feithrin sîn lenyddol fyrlymus a chyfleoedd i archwilio drwy lenyddiaeth.

**Canlyniadau**

I gyflawni'r nod hwn, rydyn ni wedi gwreiddio tri chanlyniad allweddol yn ein gwaith. Mae'r canlyniadau hyn yn croestorri drwy ein holl raglen greadigol, fel y gwelir yn yr enghreifftiau canlynol:

**Dathlu ysgrifennu yn y Gymraeg yn genedlaethol ac yn rhyngwladol:**
Yn ogystal â dathlu'r Gymraeg yn ein gweithgareddau, y llynedd fe wnaethon ni ddatblygu partneriaethau rhyngwladol â'r gwledydd Celtaidd eraill, gan gynnwys mwy o gydweithio â Grŵp Llenyddiaeth y Pedair Cenedl. Yn 2022, ymunodd Bardd Plant Cymru a'r Children's Laureate Wales ag **Áine Ní Ghlinn**, y Laureate na nÓg (Bardd Plant cyntaf Iwerddon i siarad Gwyddeleg) mewn digwyddiad ar y cyd yng Ngŵyl y Gelli. Yn ddiweddarach, croesawyd **Áine** i Dŷ Newydd ar gyfer encil farddoniaeth, gan gyfieithu cerddi i'r Gymraeg a'r Wyddeleg. Cafodd Ifor ap Glyn, y Bardd Cenedlaethol blaenorol, a Hanan Issa, y Bardd Cenedlaethol presennol, gymorth fis Tachwedd i fynd i ŵyl Push the Boat Out yn yr Alban. Tua diwedd y flwyddyn, cafodd tîm Cynrychioli Cymru gyfarfod hefyd â'r Scottish Book Trust er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd am raglenni datblygu awduron.

**Datblygu sgiliau creadigol a phroffesiynol awduron newydd, egin awduron ac awduron amrywiol sy'n ysgrifennu yn y Gymraeg:** Fel rhan o brosiect Cymru Ni, datblygodd Nia Morais weithdai mewn ysgolion ynghylch thema newid cymdeithasol cadarnhaol, a hynny gyda'r hwylusydd profiadol, clare e potter. Gyda'i gilydd, fe wnaeth clare a Nia ddarparu 11 o weithdai, ac aeth Nia yn ei blaen i ddatblygu adnodd, gan helpu ysgolion yng Nghymru i gyflwyno'r argymhellion a geir yn yr adroddiad "Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd" gan yr Athro Charlotte Williams OBE. Fis Mawrth, croesawodd Tŷ Newydd 14 o egin awduron o Gymru o amrywiaeth o gefndiroedd i ddatblygu eu sgiliau yn y maes ysgrifennu ffeithiol greadigol gyda'r tiwtoriaid Darren Chetty ac Iestyn Tyne. Cafodd y rheini a oedd yn datblygu ysgrifennu yn y Gymraeg gynnig sesiynau un-i-un penodol gydag Iestyn, ac roedd modd iddyn nhw gysylltu â Chyngor Llyfrau Cymru a golygyddion o'r Wales Arts Review.

**Ehangu mynediad i'r rheini sydd eisiau dysgu ac ysgrifennu yn y Gymraeg:**

Mae Tŷ Newydd yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys rhai sy'n unigryw i'r Gymraeg a'i threftadaeth lenyddol. Er enghraifft, mae'r Cwrs Cynganeddu blynyddol, sy'n cael ei gynnal mewn partneriaeth â Barddas, yn canolbwyntio ar hen grefft cerdd dafod. Eleni, cafodd y cwrs ei gyflwyno gan Mererid Hopwood a Karen Owen. At hynny, tiwtoriaid y cwrs ysgrifennu creadigol poblogaidd i ddysgwyr Cymraeg oedd Bethan Gwanas – awdures doreithiog a llwyddiannus sydd hefyd yn diwtor Cymraeg i oedolion – a Siôn Tomos Owen. Cafodd y rheini a oedd yn rhan o'n rhaglen datblygu awduron, Cynrychioli Cymru, gymorth gyda 120 awr o ddysgu arlein cyn encil ddwys, wythnos o hyd, yn Nhŷ Newydd, mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

## Prosiect Nodedig: Stori i bawb

Ar ddechrau'r flwyddyn, cymerodd naw o awduron sy'n cael eu tangynrychioli ran yng nghwrs strategol Tŷ Newydd, Stori i Bawb. Mae'r cwrs yn cyd-fynd â'r cwrs Saesneg cyfatebol, Books for All, ac yn cynnwys amrywiaeth o weithdai, sgyrsiau a thrafodaethau yn y Gymraeg ynghylch ysgrifennu i blant a phobl ifanc a sut i gyflwyno safbwyntiau newydd, gwreiddiol gan awduron sydd â phrofiadau bywyd perthnasol i'r byd cyhoeddi Cymraeg.

Helpodd y cwrs preswyl, wythnos o hyd, yr awduron i ddatblygu eu crefft greadigol. Ymhlith yr awduron plant amlwg a gyfrannodd roedd Elgan Rhys, Manon Steffan Ros, Patience Agbabi a chyd-awduron cyfres *Y Pump.* Helpodd y cwrs hefyd yr awduron i ddatblygu eu gyrfaoedd proffesiynol yn ystod diwrnod gan y diwydiant a oedd yn trafod y byd cyhoeddi Cymraeg yn benodol. Cafwyd cyfraniadau gan gynrychiolwyr o Gyngor Llyfrau Cymru, Llyfrau Broga, Y Lolfa a Gwasg Carreg Gwalch.

## Gwersi i'w Dysgu a'r Dyfodol

**Adfywio ein ffyrdd o gyfathrebu â chymunedau Cymraeg:** Yn 2022-23, wrth agor y broses ymgeisio ar gyfer ein rhaglen datblygu proffesiynol, Cynrychioli Cymru, ar gyfer y flwyddyn ddilynol, targedwyd digwyddiadau Cymraeg fel yr Eisteddfod Genedlaethol er mwyn denu lleisiau Cymraeg newydd. O ganlyniad, cafwyd y nifer uchaf o geisiadau Cymraeg a/neu geisiadau gan ddysgwyr Cymraeg ar gyfer y cynllun hwn. Byddwn ni felly'n parhau i ddatblygu ein ffyrdd o gyfathrebu â'r grwpiau hyn.

**Datblygu mwy o hwyluswyr Cymraeg:** Byddwn ni'n datblygu ac yn cynnal rhaglen i ddatblygu sgiliau hwyluso awduron yn y Gymraeg, er mwyn i gymunedau allu ymwneud â llenyddiaeth yn eu mamiaith.

**Hyrwyddo awduron Cymraeg:** Byddwn ni'n annog awduron a hwyluswyr Cymraeg i ychwanegu eu proffiliau at Restr Awduron Cymru a byddwn ni wedyn yn bwrw ati'n bwrpasol i dynnu sylw ein rhanddeiliaid at awduron sy'n ysgrifennu yn y Gymraeg.







Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Gweithrediadau

## 2022/2023



# Cyfathrebu

Fe wnaeth Llenyddiaeth Cymru nifer o newidiadau sylweddol eleni. Er enghraifft, lansiwyd ein strategaeth newydd, symudwyd ein pencadlys, a bu newidiadau ymhlith y staff uwch. Llwyddwyd i gyfathrebu'r newidiadau hyn mewn ffordd glir a gofalus, gan ddangos ein bod yn hyblyg ond yn sefydlog.

Serch hynny, fe wnaethon ni barhau i wynebu heriau wrth geisio cyfathrebu'n effeithiol. Mae ennyn sylw yn y wasg ac ar y cyfryngau – yn enwedig ar y llwyfan rhyngwladol a thrwy'r Deyrnas Unedig – yn dalcen caled. Mae taro ar y cydbwysedd iawn rhwng marchnata a chyfathrebu strategol yn rhywbeth sy'n parhau'n anodd, gyda llawer o'n cynnyrch digidol yn canolbwyntio ar y cyntaf o'r rhain wrth i ni geisio gwerthu cyrsiau ac annog cynulleidfaoedd newydd i ymgeisio am ein gwasanaethau a manteisio arnyn nhw. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, fe wnaethon ni gwblhau ein Huwchgynllun Cyfathrebu. Mae hwn yn ein helpu ni i amserlennu pethau'n well ac yn ein galluogi i bwyllo cyn cytuno ar weithgareddau neu cyn creu gweithgareddau sydd y tu hwnt i'n gallu i werthuso a chyfathrebu'n effeithiol.

## Data am Berfformiad

- Fe wnaeth wefan Llenyddiaeth Cymru gyrraedd dros 358,000 o unigolion.
- Drwy ein cyfryngau cymdeithasol (Facebook, Twitter, Instagram), fe wnaethon ni gyrraedd dros 1.7 miliwn o unigolion drwy 2,000 o negeseuon.
- Gwelwyd y cyhoeddiad am ein Cynllun Strategol newydd dros 5,000 o weithiau ar ein cyfryngau cymdeithasol.
- Fe wnaethon ni gyfrannu at nifer o ddigwyddiadau allanol fel siaradwyr a phanelwyr gan gynnwys: Cadeirio Beth Nesaf?; cadeirio digwyddiad yng Ngŵyl y Gelli am gyfrol a themâu Welsh Plural; trafod Llên er Lles mewn cyfarfod am ddyslecsia; a rhoi sgwrs i Brifysgol y Drydedd Oes.
- Cafodd y staff chwech o sesiynau hyfforddi mewnol am gyfathrebu, a'r rheini'n rhoi sylw i bynciau fel: creu asedau ar Canva; ysgrifennu copi ar gyfer prosiectau; y gwahaniaeth rhwng stori newyddion a datganiad i'r wasg; a mwy.

## Uchafbwyntiau

- Eleni, lansiodd Llenyddiaeth Cymru ein cynllun strategol ar gyfer 2022-2025, a hwnnw'n dangos sut y byddwn ni'n ceisio gwireddu ein gweledigaeth o Gymru lle mae llenyddiaeth yn grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau.
- Ar 6 Gorffennaf, cyhoeddwyd mai Hanan Issa fyddai Bardd Cenedlaethol newydd Cymru. Cafodd ei phenodiad ei groesawu'n frwd gan y cyhoedd. Cafodd ei thrydariad hi'i hun yn cyhoeddi'r penodiad ei hoffi 3,700 o weithiau a'i aildrydaru 564 o weithiau, gan ddenu 233 o sylwadau. Llwyddwyd i gael sylw yn eang yn y wasg ac ar y cyfryngau, gan gynnwys yn The Guardian, The Bookseller, The Western Mail, Golwg a Barddas, ac ar ITV Wales.
- Cafodd ein partneriaeth â BBC Cymru Wales fel rhan o Wobr Llyfr y Flwyddyn ei chryfhau ymhellach, gyda'r holl gyhoeddiadau'n cael eu gwneud ar BBC Radio Wales a BBC Radio Cymru.
- Fe wnaethon ni neilltuo rhagor o adnoddau i ddiogelu artistiaid (fel Bardd Cenedlaethol Cymru) wrth wneud cyhoeddiadau mawr a'r tu hwnt i hynny, gan sicrhau eu bod nhw'n cael digon o wybodaeth, manylion cyswllt, a sicrwydd ym mhob cam yn y broses. Fe wnaethon ni hefyd gwblhau ein canllawiau cymunedol ar gyfer y cyfryngau

cymdeithasol. Mae'r rheini'n rhoi gwybodaeth am yr hyn y gall ein cymuned arlein ei ddisgwyl gennyn ni, a beth rydyn ninnau'n ei ddisgwyl ganddi hithau yn ei thro.

## Gwersi i'w Dysgu a'r Dyfodol

**Datblygu hygyrchedd:** Rydyn ni wedi cymryd camau breision wrth wneud ein deunydd cyfathrebu'n hygyrch, yn enwedig wrth gyhoeddi cyfleoedd newydd i awduron. Fel mater o drefn, mae ein dogfennau ar gael mewn fformat print brasa fformat y gellir ei olygu sy'n ystyriol o ddyslecsia. Rydyn ni hefyd yn sicrhau bod gwasanaeth dehongli BSL ar gael yn y rhan fwyaf o'n digwyddiadau allanol. Rydyn ni'n cydweithio gyda Celfyddydau Anabledd Cymru yn haf 2023 i gynnal cwrs am Ailddyfeisio'r Prif Gymeriad, a byddwn ni'n sicrhau bod unrhyw arferion da y byddwn ni wedi'u dysgu yn ystod y broses hon yn cael eu rhoi ar waith drwy ein holl ddeunydd cyfathrebu pan fydd hynny'n bosibl. Byddwn ni hefyd yn buddsoddi i ddatblygu hygyrchedd gwefannau Llenyddiaeth Cymru a Thŷ Newydd.

Yn y flwyddyn nesaf, byddwn ni'n creu ac yn rhoi ar waith gynllun datblygu cynulleidfaoedd, er mwyn sicrhau bod talentau newydd yn gallu gweld cyfleoedd a bod mwy o randdeiliaid yn cael gwybod am effaith ein gwaith.

Byddwn ni'n parhau i feithrin perthnasau â chysylltiadau yn y wasg a'r cyfryngau, a hynny yng Nghymru a'r tu hwnt. Byddwn ni'n ceisio deall yn well dirwedd y cyfryngau yn y cyfnod ar ôl y pandemig, gan addasu ein dulliau o gynnig erthyglau a rhannu cyhoeddiadau o bwys yn unol â hynny.

Gall hi fod yn anodd cyhoeddi ffigurau am lefelau cyfranogi mewn gweithgareddau gan ddefnyddio platfformau allanol ar y cyfryngau. Er enghraifft, yn y gorffennol, rydyn ni wedi casglu data gan RAJAR (gwefan sy'n rhoi ffigurau gwrando) ond mae hwn yn wasanaeth tanysgrifio bellach. Mae gan blatfformau ar y cyfryngau amserlenni adrodd gwahanol i ni, ac felly bydd angen adolygu sut y byddwn ni'n casglu'r wybodaeth hon.

# Cyllid

Mae Llenyddiaeth Cymru wedi parhau i gadw rheolaeth ariannol gadarn ac wedi addasu'i weithdrefnau yn ôl y galw i sicrhau bod ei systemau adrodd yn effeithlon. Yn 2022, parhawyd i gyflwyno templedi cyllidebau, a'r rheini wedi'u hailddatblygu yn dilyn treialon yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn golygu mai un gyllideb sydd gan bob prosiect bellach, a hynny'n galluogi rheolwyr y prosiectau i gynllunio a chofnodi incwm a gwariant eu prosiectau. Gan edrych ymlaen at 2023/24, bydd y cyllidebau hyn yn cael eu defnyddio ar gyfer y rhagolygon chwarterol yn ogystal ag i gofnodi trafodiadau.

Er ein bod wedi bwriadu cynnal adolygiad allanol o'r gweithdrefnau ariannol, golygai'r gost nad oedd hyn yn ymarferol. Serch hynny, ochr yn ochr â'n harchwiliad blynyddol, cynhaliodd y tîm ariannol eu hadolygiad eu hunain o'r dulliau rheoli yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennol. Mewn mannau eraill, mae cynnydd mewn chwyddiant wedi arwain at gynnydd mewn costau rhedeg, a bydd hyn yn parhau drwy gydol 2023/24. Bydd Llenyddiaeth Cymru yn parhau i gwtogi'r costau hyn lle mae hynny'n bosibl ac yn ceisio cynnal trafodaethau â chyflenwyr er mwyn lleihau'r costau ymhellach.

Ar ddiwedd 2022/23, mae'r arian wrth gefn rhydd sydd gan y sefydliad yn uwch na'r targed presennol. Yn ystod 2023-24, byddwn ni'n ceisio eu lleihau i lefel addas drwy roi symiau ychwanegol i weithgareddau sydd ar y gweill a thrwy wneud y gwaith cadwraeth sydd wedi'i gynllunio yn Nhŷ Newydd yn gynt.

## Data am Berfformiad

- 4 cyfres o gyfrifon rheoli ac 1 adroddiad blynyddol wedi'u cyflwyno i Gyngor Celfyddydau Cymru
- Wedi parhau i ddefnyddio dull modelu senarios i gynllunio ar gyfer newidiadau i lif incwm ac i lunio cais yr Adolygiad Buddsoddi
- Wedi cwblhau'r gwaith o gyflwyno cyllidebau ar gyfer costau rhedeg prosiectau i'w defnyddio gan yr holl staff
- Symud yn llwyddiannus i ddefnyddio meddalwedd cyfrifyddu sy'n seiliedig ar system gwmwl

## Gwersi i'w Dysgu a'r Dyfodol

Rydyn ni wedi cydnabod bod angen sicrhau bod nifer o aelodau'r staff yn gallu deall a defnyddio rhai o brosesau ariannol y sefydliad. Fel tîm bychan, mae risg y gallai aelod pwysig o'r tîm fod yn absennol am gyfnod, a hynny'n arwain at sefyllfa lle na fyddai rhai gweithdrefnau wedi'u cwblhau. Gyda hyn mewn golwg, bwriedir rhoi rhagor o hyfforddiant i'r Prentis Cadw Llyfrau ac aelodau'r Uwch Dîm Arwain yn 2023/24, a bydd hyn yn sicrhau bod digon o staff ar gael i lenwi. Bydd y llawlyfr gweithdrefnau ariannol hefyd yn cael ei ddiweddaru a'i rannu â'r tîm ehangach yn ystod y flwyddyn.

Ar ôl proses lwyddiannus i gyflwyno templedi cyllidebau neu gyllidebau ar gyfer costau rhedeg pob prosiect, bydd staff Llenyddiaeth Cymru yn ehangu'u defnydd i gynnwys ail-ragolygon chwarterol. Bydd sesiynau'n cael eu darparu drwy'r flwyddyn i sicrhau bod yr holl staff yn cael eu helpu i weithio yn y ffordd hon ac i ganfod unrhyw broblemau'n gynnar.

Ar ôl defnyddio dull modelu senarios yn ystod pandemig COVID-19, a alluogodd y sefydliad i addasu i newidiadau mewn amgylchiadau yn ôl y galw, bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol a'r Rheolwr Cyllid yn creu modelau senarios o 2024 ymlaen. Bydd hyn yn ein galluogi i gynllunio'n well at y dyfodol.

Diweddarwyd y polisi Arian Wrth Gefn 2022 i adnabod dibenion a chronfeydd dynodedig mae'r sefydliad angen. Ar ddiwedd y Flwyddyn, roedd gan Llenyddiaeth Cymru cyfanswm arian wrth gefn anghyfyngedig o £465,872 (2022: £416,099) a chyfanswm arian wrth gefn cyfyngedig o £944,413 (2022: £962,838). Ar ddiwedd y flwyddyn, mae gan Llenyddiaeth Cymru'r lefelau canlynol o gyllid:

- Cronfa anghyfyngedig gyffredinol ar gael: £243,074
- Cronfa adeiladau Tŷ Newydd: £42,071
- Cronfa datblygiad gyfalaf Tŷ Newydd: £20,000
- Cronfa gweithgaredd peilot: £25,000
- Cronfa etifeddiaeth: £21,030

# Codi arian

Roedd y gwaith codi arian yn heriol i Llenyddiaeth Cymru eto yn 2022/2023, er i lawer o gynnydd gael ei wneud wrth greu strategaeth codi arian gref ar gyfer y dyfodol.  Roedden ni'n ffodus i gael lle ar raglen 'Prosper' Celfyddydau a Busnes Cymru, gan baru ein Cyfarwyddwr Gweithredol â mentor o gefndir rhoddion corfforaethol. Cafodd ein Harweinydd Creadigol sy'n gyfrifol am godi arian gymorth mentor hefyd i ddatblygu ein rhaglen ar gyfer rhoddion gan unigolion o 2024 ymlaen.

Mae'r amgylchedd allanol ar gyfer codi arian yn dal yn heriol. Mae cydweithwyr dros y ffin yn Lloegr yn wynebu toriadau enbyd i'w cyllid cyhoeddus, ac mae nifer o ymddiriedolaethau wedi dechrau addasu'u cylchoedd gwaith, sy'n golygu bod y gystadleuaeth am gyllid wedi bod yn uwch nag erioed.  Fe wnaethon ni gyflogi ymgynghorwyr codi arian, Cause4, i helpu gyda'n gwaith ymhlith ymddiriedolaethau a sefydliadau. Cymysg fu llwyddiant hyn.

## Data am Berfformiad

Nid oedd y perfformiad mewn sawl maes cystal ag y gobeithiwyd, ond fe wnaethon ni ragori ar ein targed cyffredinol ar gyfer codi incwm, sef £248,000, gyda'r ffigur yn y pen draw 29% yn uwch.   Y ffigurau terfynol oedd:

- **£153,666** drwy gyrsiau masnachol, llogi lleoliadau a nwyddau
- **£124,176** drwy Ymddiriedolaethau a Sefydliadau a'r Loteri
- **£2000** drwy gomisiynau corfforaethol
- **£36420** drwy nawdd corfforaethol
- **£2869** drwy roddion ac ymgyrchoedd
- **£700** drwy roddion gan unigolion

## Uchafbwyntiau

**Llogi Tŷ Newydd yn fasnachol –** Wrth gefnu ar bandemig COVID-19, roedden ni'n falch o weld bod yr incwm o logi Tŷ Newydd yn fasnachol wedi rhagori ar y disgwyliadau.  I ni, mae'n bwysig cydbwyso defnydd elusennol yr adeilad â'r cyfle i ennill incwm. Yn y blynyddoedd nesaf, felly, byddwn ni'n gweithio i sicrhau bod y safle'n llawn yn gyson, gyda chydbwysedd rhwng cyrsiau strategol a llogi masnachol.

**Polisi Codi Arian yn Foesegol –** Mae Llenyddiaeth Cymru wastad yn ceisio cynnal ei brosiectau mewn ffordd mor foesegol â phosibl.  Rydyn ni'n honni mai gwerthoedd sy'n ein harwain, ond dydyn ni erioed wedi edrych yn iawn ar beth fyddai hynny'n ei olygu i'n prosesau codi arian. Felly, drwy gyfres o drafodaethau wedi'u hwyluso, aethon ni ati i holi barn yr holl dîm am ystyr codi arian yn foesegol. Cafodd ffrwyth hynny wedyn ei droi'n bolisi sy'n cyd-fynd â'n gwerthoedd ac sy'n parchu canllawiau'r Comisiwn Elusennau.   Yn dilyn y broses hon, roedd holl aelodau'r tîm yn gyfforddus yn creu partneriaethau a oedd wedi'u harwain gan werthoedd. Rydyn ni'n credu bod hyn yn arwain at waith sy'n cael mwy o effaith. Rydyn ni hefyd wedi cyflwyno arferion moesegol wrth i ni ddatblygu ein strategaeth ar gyfer codi arian.

## Gwersi i'w Dysgu a'r Dyfodol

Rydyn ni wedi cydnabod bod angen i aelod penodol o'r staff fod yn gyfrifol am godi arian. Dylai hyn olygu bod y gwaith i godi arian gan ymddiriedolaethau a sefydliadau yn cael ei wneud yn fewnol, ac felly hefyd y gwaith i roi ein strategaeth ar gyfer rhoddion gan unigolion ar waith dros y blynyddoedd nesaf.  Bydd y broses recriwtio yn dechrau ym mis Ebrill 2023.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Llywodraethu

Llywodraethu da yw sylfeini ein sefydliad. Rydyn ni'n ceisio bod yn dryloyw ac yn atebol am ein camau gweithredu, a hynny drwy gydweithio clir rhwng y tîm gweithredol a'r bwrdd, yn ogystal â thrwy rannu adroddiadau chwarterol.

Roedd 22/23 yn flwyddyn bwysig i sicrhau bod y sefydliad yn gadarn at y dyfodol. Ym mis Ebrill 2022, gadawodd Lleucu Siencyn, ein Prif Weithredwr ers tro, yr elusen am swydd yng Nghyngor Celfyddydau Cymru. Yn sgil hynny, penododd yr ymddiriedolwyr ddau aelod o staff fel Prif Weithredwyr Dros Dro, sef Claire Furlong a Leusa Llewelyn. Dros y 6 mis nesaf, bu'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am broses recriwtio drylwyr gyda chymorth asiantaeth recriwtio Goodson Thomas. Arweiniodd hynny at benodi Claire a Leusa yn barhaol o fis Medi 2023.

Mae tymhorau nifer o ymddiriedolwyr yn dod i ben rhwng haf 2022 a 2023 (7 i gyd). Diolchwyd i Natalie Jerome, Elizabeth George ac Eric Ngalle-Charles am eu cyfraniadau rhagorol, a dechreuwyd trefnu galwad gyhoeddus am ymddiriedolwyr newydd. Bu chwech yn llwyddiannus, ac ymunodd dau, sef Rachel Harries a Casi Dylan, â'n bwrdd ym mis Chwefror 2023. Bydd y pedwar arall yn dechrau yn raddol yn eu tro, er mwyn sicrhau sefyllfa gadarn at y dyfodol.

# Adnoddau Dynol
## Ein Blwyddyn 2022/2023

Ar ôl dwy flynedd gythryblus yn ystod y pandemig, mae Llenyddiaeth Cymru a'i arweinwyr newydd wedi rhoi pwyslais mawr ar les y staff ac ar ddatblygu sgiliau'r tîm. Mae ysbryd y staff wedi bod yn dda. Gwelwyd hyn yn y sgyrsiau a hwyluswyd rhwng y tîm, lle cafodd pynciau fel cyfathrebu mewnol eu trafod, ac hefyd yn y dystiolaeth o'r Adolygiadau Datblygu Proffesiynol. Mae trosiant y staff wedi bod yn isel yn y cyfnod hwn, ac mae pedwar aelod o'r tîm wedi cael dyrchafiadau mewnol.

Mae polisïau newydd ar gyfer y staff wedi'u cyflwyno drwy gydol y flwyddyn, fel y polisi gweithio hybrid newydd, tra datblygwyd polisi hefyd ar gyfer y menopos yn y gweithle. Rydyn ni'n ymfalchïo yn y ffaith ein bod ar flaen y gad yn y sector yn hyn o beth, ac rydyn ni'n falch o fod wedi rhannu'r polisi hwn, ynghyd â pholisïau adnoddau dynol eraill, â chydweithwyr drwy'r diwydiant i'w helpu i ddatblygu.

## Canlyniadau

- Recriwtio 2 gyfarwyddwr newydd i'r bwrdd
- Yr holl staff ac aelodau'r bwrdd i gael hyfforddiant yn y maes gwrth-hiliaeth ac ableddiaeth
- Llwyddwyd i recriwtio Prif Weithredwyr
- Hyfforddiant: Cynnig hyfforddiant llesiant i'r holl staff
- Hyfforddiant: 2 o staff wedi'u hyfforddi mewn Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl
- 100% o'r staff wedi mynychu o leiaf 3 sesiwn hyfforddiant i dimau amrywiol
- 4 aelod o'r staff wedi elwa o gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus
- 15% o'r gweithwyr, gwirfoddolwyr a chyfarwyddwyr yn arddel hunaniaeth o Gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, ac mae gan 15% anableddau

## Data am Berfformiad

- Recriwtiwyd 6 o gyfarwyddwr newydd i'r bwrdd
- Aeth dau aelod o staff ar gwrs hyfforddiant gwrth-hiliaeth, wedi'i ddarparu gan Celfyddydau a Busnes Cymru a Chyngor Hil Cymru, gan rannu'r hyn a ddysgwyd â'r holl dîm o staff. Cafodd yr holl staff hefyd sesiwn i godi ymwybyddiaeth o niwroamrywiaeth ym mis Chwefror 2023, a hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o fyddardod gyda Taking Flight Theatre
- Cafodd Leusa Llewelyn a Claire Furlong eu penodi yn Brif Weithredwyr ar y cyd ym mis Medi 2022
- Mae disgwyl i 12 o staff gael hyfforddiant mewn Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ym mis Ebrill 2023
- Cafodd yr holl aelodau o staff 7 sesiwn hyfforddiant i bob tîm ar bynciau a oedd yn cynnwys Codi Arian yn Foesegol a chyfathrebu mewnol
- Mae 12 aelod o staff wedi elwa o gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus
- Mae 13.3% o'r gweithwyr, gwirfoddolwyr a chyfarwyddwyr yn arddel hunaniaeth o Gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, ac mae gan 10% anableddau

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

## Uchafbwyntiau

I helpu i greu amgylchedd gweithio iach yn ystod y cyfnod pontio wrth i'r arweinwyr newid, cynigiwyd sesiynau hyfforddi i holl aelodau ein Huwch Dîm Arwain gyda Lesley Rossiter, yr ymgynghorydd Adnoddau Dynol. Darparwyd 17 o sesiynau i gyd, gyda'r staff a elwodd yn dweud eu bod yn fwy hyderus yn eu gallu i arwain a'u bod yn fwy gwydn.

Roedd modd i chwech o weithwyr ennill cymwysterau ar lefelau 2, 3 a 5 drwy'r Sefydliad Arwain a Rheoli, a hynny drwy hyfforddiant gan Grŵp Llandrillo Menai. Rhoddodd Llywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop gymhorthdal ar gyfer yr hyfforddiant hwn. Roedd gan y staff a gymerodd ran sylwadau arbennig o gadarnhaol i'w gwneud am y profiad dysgu cyffredin a gafwyd gyda chydweithwyr mewn sectorau amrywiol, ac mae un cydweithiwr wrthi'n datblygu adnodd sefydliadol newydd sy'n ceisio gwella'r hyn rydyn ni'n ei gynnig ym maes llesiant i staff ac artistiaid a hwyluswyr llawrydd. Dogfen ddynamig yw hon a fydd yn parhau i gael ei datblygu ar ôl cael adborth gan aelodau ein tîm.

## Gwersi i'w Dysgu a'r Dyfodol

Yn ystod y flwyddyn, roedd recriwtio'n dipyn o dalcen caled i ni, yn enwedig i swyddi a oedd yn gofyn am sgiliau rhagorol yn y Gymraeg. Er gwaethaf ein prosesau recriwtio blaengar, fel y cynllun gwarantu cyfweliadau, roedd hi'n anodd hefyd denu ymgeiswyr o gefndiroedd sy'n cael eu tangynrychioli. Gan fod hon yn broblem sy'n berthnasol i'r holl sector, rydyn ni wedi ymuno â chwmnïau celfyddydol cenedlaethol eraill Cymru ac wedi cael cyllid o Gronfa Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru i gydweithio ar brosiect Newid Diwylliant, a fydd yn dechrau ym mis Mawrth 2023.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Monitro a Gwerthuso

**Ein Nod:** Byddwn ni'n cyfathrebu effaith ein gweithgareddau'n well, a bydd gan bob ystadegyn stori, tra bydd gan bob stori ystadegyn.

## Data am Berfformiad

Fe wnaethon ni gyflawni'r canlynol:

- Cyflwyno system monitro effaith newydd, wedi'i seilio ar saith nod
- Adroddiad Blynyddol
- 4 adroddiad chwarterol, a'r rheini'n dangos effaith un o'n saith nod
- Arolwg rhanddeiliaid a anfonwyd i dros 800 o unigolion i gasglu eu hadborth adeiladol
- Dau adroddiad cynhwysfawr i Gyngor Celfyddydau Cymru, ein prif gyllidwr
- 13 o gyflwyniadau creadigol i'r holl dîm, yn dangos yr hyn a ddysgwyd o brosiectau

## Uchafbwyntiau

**Cynllunio Prosiectau:** Ym mis Ebrill 2022, fe wnaethon ni gyflwyno system cynllunio prosiectau newydd sy'n olrhain canlyniadau a dangosyddion penodol ar gyfer pob prosiect. Yn ogystal â galluogi pob prosiect i edrych ar yr effaith benodol ar gymuned unigol, mae hyn hefyd yn ein galluogi i ddangos sut mae prosiectau'n croestorri gan y bydd pob canlyniad yn cyd-fynd â'n saith Nod cyffredinol (sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015).

**Canlyniadau Iechyd a Llesiant:** Hanner ffordd drwy'r flwyddyn, fe wnaethon ni sylweddoli nad oedd ein canlyniadau Iechyd a Llesiant yn cael cymaint o effaith ag y gallen nhw. Gan hynny, ymgynghorwyd ag Astrid Breel, cymrawd ymchwil effaith ym Mhrifysgol Bath Spa, i ddatblygu ymhellach ein dealltwriaeth o bwnc cymhleth.

**Hwyluso yn y Sector:** Mae Llenyddiaeth Cymru'n gweithredu'n gynyddol fel corff sy'n rhoi cymorth i'r sector, gyda channoedd o oriau o amser y staff yn cael ei dreulio ar helpu sefydliadau eraill i ddarparu gweithgareddau llenyddol sy'n cael effaith. Yn 2022, fe wnaethon ni ddatblygu system i gadw golwg yn well ar y gweithgareddau hyn, gan ein galluogi i ddangos yn well beth yw effaith y gwaith hollbwysig hwn.

## Gwersi i'w Dysgu a'r Dyfodol

- Ni wnaeth ein harolwg ymhlith rhanddeiliaid ddenu cynifer o ymatebion gan weithwyr llawrydd â'r disgwyl. Rydyn ni'n tybio bod hyn gan iddo gael ei anfon ar ddiwedd y flwyddyn, yn aml sbel ar ôl i bobl lawrydd weithio gyda ni. Yn y dyfodol, byddwn ni'n casglu data'n barhaus, gan alluogi casglu data pan fydd y pwnc yn dal yn fyw ym meddyliau pobl.
- Rydyn ni'n gweithio'n gynyddol fel partner sy'n cefnogi wrth ddarparu prosiectau, sy'n golygu mai prin yw'r rheolaeth sydd gennyn ni dros gasglu data. Yn y dyfodol, rydyn ni wedi hyfforddi ein tîm i fynd ati'n bwrpasol i drafod cynlluniau gwerthuso gyda phartneriaid ar ddechrau'r broses o ddatblygu prosiectau. Bydd hyn yn sicrhau y gallwn ni gasglu'r wybodaeth y mae'i hangen ar y ddwy ochr, a chyfathrebu ein heffaith yn fwy effeithiol.

- Mae angen i ni wella sut rydyn ni'n cyfathrebu effaith hirdymor ein prosiectau i ddatblygu awduron, a byddwn ni'n datblygu dull wedi'i seilio ar astudiaethau achos o wneud hyn yn 2023.

# Risgiau

## Canlyniadau

Yn 2022/23, byddwn ni'n creu diwylliant sy'n fwy ymwybodol o risgiau drwy wneud y canlynol:

- Gwreiddio'r system newydd i reoli risgiau yn y sefydliad, a honno'n cyd-fynd â'n nodau a'n hallbynnau sefydliadol.
- Neilltuo cyfrifoldeb ar raddfa lithro i holl aelodau'r tîm, gan gynnwys Bwrdd y Cyfarwyddwyr.
- Adolygu'r holl risgiau a'r tactegau lliniaru cysylltiedig yn rheolaidd, i sicrhau bod risgiau wedi'u diweddaru ac yn berthnasol i'n gweithgareddau.

## Uchafbwyntiau

**Dyrannu risgiau i'w rheoli:** Ers mis Ebrill 2022, rydyn ni'n rhannu risgiau yn rhai ar lefel 'strategol' ac ar lefel 'prosiectau'. Mae holl arweinwyr prosiectau (y rhan fwyaf o aelodau'r staff) bellach yn gyfrifol am ganfod a lliniaru risgiau ar lefel prosiectau, a hynny wedi'i oruchwylio gan y Cyfarwyddwr Artistig.
Neilltuwyd gwahanol agweddau ar risgiau strategol i'r Uwch Dîm Arwain, a chaiff un o'r risgiau hyn ei adolygu yng nghyfarfod yr Uwch Dîm Arwain bob wythnos, gan arwain at broses well o reoli risgiau drwy'r holl sefydliad.

## Gwersi i'w Dysgu

Gan fod risgiau bellach wedi'u dyrannu drwy'r holl dîm, rydyn ni wedi sylweddoli bod angen gwell hyfforddiant ar staff newydd er mwyn sicrhau eu bod nhw'n hyderus wrth asesu a rheoli risgiau. Rydyn ni hefyd wedi dysgu bod angen i arweinwyr prosiectau fod yn rhagweithiol wrth gyfathrebu â'r tîm ehangach ynghylch camau lliniaru i osgoi dyblygu gwaith/gweithio'n groes i'w gilydd. Ers 2023, caiff hyn bellach ei drafod bob mis yn y cyfarfodydd creadigol.

# Hwyluso yn y Sector

Rydyn ni'n ceisio ymgynghori'n eang â'n rhanddeiliaid, ynghyd â gwella'r modd y mae gwybodaeth yn llifo i'r sefydliad o'r tu allan, ac yn fewnol yn y sefydliad ei hun. Rydyn ni hefyd yn gynyddol yn ceisio symud oddi wrth ddarparu prosiectau'n uniongyrchol. Yn hytrach, rydyn ni'n ceisio gweithio fel hwylusydd a phartner, gan weithio gyda phobl eraill i hybu cyrhaeddiad ac effaith ein gwaith ar y cyd.

## Canlyniadau

Mae ein gwaith hwyluso yn y sector yn 2022-23 wedi arwain at amrywiaeth o weithgareddau newydd sy'n deillio o bartneriaethau sy'n bodoli'n barod, yn ogystal ag at brosiectau newydd. Yn eu plith mae'r gweithiau comisiwn Natur a Llesiant a lansiwyd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru; prosiect addysgol Ymatebion Creadigol sy'n cael ei redeg ar y cyd â Cadw; Tirweddau Telynegol gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol; Llên mewn Lle mewn partneriaeth â'r WWF; a sawl un arall. Heb ein partneriaid, ni fyddai'r gwaith hwn wedi bod yn bosibl, neu byddai'n rhaid bod wedi'i wneud ar raddfa lai.

Rydyn ni hefyd wedi rhoi cymorth i grwpiau, sefydliadau ac unigolion i wneud gwaith gyda'n grwpiau blaenoriaeth. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda Race Equality Wales wrth edrych ar gynrychiolaeth mewn llyfrau plant; cefnogi Gwobr Geiriau Creadigol Celfyddydau Anabledd Cymru; a chymryd rhan mewn trafodaethau drwy'r holl sector gyda'r Rhwydwaith Dyslecsia a Chelfyddydau. Mae ein partneriaeth â'r sefydliadau hyn wedi annog gweithgareddau llenyddol newydd sy'n cyfrannu at ein hamcanion strategol. Mae wedi arwain hefyd at rhannu ein gwybodaeth am lenyddiaeth â sefydliadau sydd mewn sefyllfa ddelfrydol i weithio gyda grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.

Mae ein gwaith hwyluso yn y sector hefyd wedi cyfrannu at gynnydd yn y sectorau llenyddiaeth a chelfyddydau ehangach yng Nghymru. Yn ogystal â'r saith cwmni celfyddydau cenedlaethol arall, rydyn ni wedi cael cyllid drwy Gronfa Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru i gyflwyno rhaglen Newid Diwylliant. Bydd hon yn defnyddio gwersi a ddysgwyd o'n hymchwil i ddiffyg amrywiaeth yn y gweithlu celfyddydol, gyda'r nod o gyflwyno cynlluniau sy'n berthnasol i'r holl sector.

## Data am Berfformiad

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth staff Llenyddiaeth Cymru gofnodi dros 850 awr o waith hwyluso yn y sector. Roedd hyn yn cynnwys rhoi cymorth i awduron neu sefydliadau, cyfrannu at drafodaethau drwy'r holl sector, cynnal cyfarfodydd i sefydlu partneriaethau a phrosiectau posibl, a rhoi hyfforddiant neu gyngor am brosiectau. Mae hyn yn cyfateb i 46 awr o gymorth i'r sector nad yw'n ariannol gan bob aelod o staff, sy'n rhagori ar ein nod, sef 12 awr gan bob aelod o staff.

## Uchafbwyntiau

Mae holl staff Llenyddiaeth Cymru yn ymwneud yn helaeth â gwaith i hwyluso gweithgareddau drwy'r sector, boed hynny drwy ateb ymholiadau gan awduron neu drwy roi cyflwyniadau mewn digwyddiadau cyhoeddus o bwys.

Mae hyn wedi cynnwys:

- Gweithio gyda'r Eisteddfod Genedlaethol i drefnu digwyddiadau gan gynnwys perfformio gwaith llenyddol a cherddorol newydd a gafodd ei greu yn ystod encil i awduron LHDTCA+ yn Nhŷ Newydd; seremoni agoriadol y Babell Lên a oedd yn cynnwys Casi Wyn, Bardd Plant Cymru; a digwyddiad yn ymwneud â Byw Nawr, sef ein prosiect barddoniaeth preswyl yn yr uned gofal lliniarol yn Aberystwyth.
- Helpu darparwr cyrsiau newydd, sef Coleg y Mynydd Du, i greu a darparu cwrs ysgrifennu creadigol. Fe wnaethon ni hefyd sicrhau bod ysgoloriaeth ar gael i awdur o gefndir sy'n cael ei dangynrychioli i fynychu'r cwrs hwn.
- Arweiniodd staff Llenyddiaeth Cymru 4 sesiwn hyfforddiant fel rhan o brosiect Cynefin Cyngor Celfyddydau Cymru, gan friffio athrawon a hwyluswyr celfyddydol ynghylch creu gorfod i gynnal sgyrsiau anodd am hil a hunaniaeth, a rhannu'r hyn a ddysgwyd drwy brosiect Cymru Ni.
- Bu staff Llenyddiaeth Cymru yn beirniadu Gwobrau Celfyddydau a Busnes Cymru, sy'n dathlu partneriaethau rhwng byd y celfyddydau a byd busnes.
- Gweithio gyda'r rhaglen DARPL (Diverse and Anti-Racist Professional Learning) i athrawon, a chynnal sesiwn i helpu athrawon drwy Gymru i addysgu *Of Mice and Men* mewn ffordd addas ar lefel TGAU.
- Rhoi cymorth a chyngor i sefydliadau gan gynnwys: ArtWorks, Celfyddydau Anabledd Cymru, S4C, y Rhwydwaith Dyslecsia a'r Celfyddydau, Petra Publishing ac Inclusive Journalism wrth iddyn nhw ddatblygu rhaglenni sy'n gysylltiedig â llenyddiaeth a/neu ein tair blaenoriaeth.
- Noddi cystadlaethau cenedlaethol newydd yng Nghymru, gan gynnwys Cystadleuaeth Nofel Gyntaf Crime Cymru, y Wales Poetry Award, Gwobr New Welsh Writing y New Welsh Review, a chystadleuaeth ffuglen plant Firefly Press.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Tŷ Newydd
## Ein Blwyddyn 2022/2023

2022-23 oedd y flwyddyn lawn gyntaf heb i gyfyngiadau COVID-19 effeithio'n uniongyrchol ar redeg Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd o ddydd i ddydd. Lansiwyd rhaglen lawn o gyrsiau ym mis Ionawr 2022, a honno'n cynnwys dros **40** o gyrsiau, yn amrywio o gyrsiau dydd i gyrsiau penwythnos i gyrsiau wythnos o hyd, yn ogystal â chyrsiau digidol. Cafodd Bwthyn Encil Awduron Nant ei logi gan bobl newydd, a gallwn ni bellach weld sylfaen newydd o gleientiaid yn cael ei chreu, gyda gwesteion yn dychwelyd ac archebion yn cyrraedd o'r naill flwyddyn i'r llall.

Ym mis Medi 2022, cyhoeddwyd hefyd mai Tŷ Newydd fyddai pencadlys swyddogol Llenyddiaeth Cymru.

## Y Canlyniadau a Gynlluniwyd a'r Perfformiad

- Defnyddiwyd Bwthyn Encil Awduron Nant i **68%** o'i gapasiti yn y calendr, gan fethu ar y targed o'i lenwi 75% o'r amser.

- Cynhaliwyd **5 prosiect** yn Nhŷ Newydd yn rhad ac am ddim i grwpiau a chymunedau sy'n cael eu tangynrychioli yn Niwylliant Llenyddol Cymru. Y rhain oedd:
    - Stori i Bawb – cwrs i 14 o awduron sy'n cael eu tangynrychioli, gan geisio cyflwyno mwy o amrywiaeth mewn llenyddiaeth plant
    - Cwrs mewn partneriaeth â Theatr y Sherman, lle cafodd sgriptwyr sy'n cael eu tangynrychioli gyfleoedd datblygu i awduron
    - Cwrs preswyl Cariad yw Cariad, mewn partneriaeth â'r Eisteddfod Genedlaethol. Cwrs penwythnos i awduron a chantorion-gyfansoddwyr LHDTC+ oedd hwn, i ddatblygu prosiect artistig ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron
    - Llyfrau Lliwgar, sef encil dros benwythnos i awduron a darllenwyr creadigol LHDTC+ o Gymru i ysgrifennu a beirniadu
    - Ein cwrs wythnos i egin awduron o Gymru sy'n cael eu tangynrychioli ym maes ysgrifennu ffeithiol-greadigol.

  Fe wnaethon ni hefyd roi gofod cwrdd i grŵp llywio lleol, gyda'r dasg o ddathlu Cadfan Sant. Arweiniodd hyn at gwrs undydd mewn partneriaeth â'r grŵp, yn rhad ac am ddim i'r gymuned leol.

- Ni chafodd **Cynllun Cadwraeth ar gyfer Cynnal a Chadw** ei greu yn unol â'r bwriad, gan i'r pensaer roi blaenoriaeth i reoli'r gwaith adnewyddu ar y Tŷ Haul. Mae'r canlyniad hwn wedi'i ohirio tan 2023-24.

- Roedd **76%** o diwtoriaid y cyrsiau yn dod o Gymru a/neu yn byw yng Nghymru, a hynny'n rhagori ar y targed o 50%.

## Uchafbwyntiau

- Daeth **368** o awduron ar gwrs neu encil i Dŷ Newydd
- Talwyd **£107,938** i gyfanswm o **65** o awduron
- Cafodd Bwthyn Encil Awduron Nant ei ddefnyddio am **251** o nosweithiau gan **35** o awduron
- Cytunai **93%** o'r cyfranogwyr fod eu cwrs wedi'u helpu i ddatblygu fel awduron

- Dywedodd **98%** o'r cyfranogwyr fod y cwrs yn Nhŷ Newydd wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd a'u llesiant.
- Dywedodd **88%** o'r cyfranogwyr y bydden nhw'n hynod o debygol o drefnu i ddod ar gwrs neu encil arall yn Nhŷ Newydd yn y dyfodol

Ym mis Mehefin 2022, cyflogodd Llenyddiaeth Cymru swyddog Cefnogaeth Gweithredol newydd, wedi'i lleoli yn Nhŷ Newydd. Ac ym mis Hydref 2022, penodwyd Rheolwr Creadigol i fod yn gyfrifol am raglen greadigol Tŷ Newydd. Ymunodd y ddwy â'r tîm presennol yn Nhŷ Newydd, sy'n cynnwys Cydlynydd Arlwyo a Lletygarwch a Rheolwr Tŷ Newydd. Mae cydweithwyr eraill yn y gogledd sydd hefyd yn gweithio yn swyddfa Tŷ Newydd, gan gynnwys ein Cyfarwyddwr Artistig, dau Gydlynydd Creadigol, a swyddog Cefnogaeth Cyllid.

Daethpwyd o hyd i arddwr newydd i gynnal a chadw lawntiau a llwybrau'r safle. Nid yw'r tir erioed wedi edrych cystal, a bydd gwesteion ac ymwelwyr yn aml yn crybwyll pa mor daclus maen nhw'n edrych.

Cafodd **8** o ystafelloedd llety yn Hafoty eu paentio, a phrynwyd ychydig o ddodrefn er budd y gwesteion a fydd yn aros yn yr ystafelloedd hyn. Mae hyn yn rhan o'n gwaith parhaus i wella ein llety yn unol ag adborth y gwesteion.

Dechreuodd gwaith adnewyddu hanfodol ar y Tŷ Haul yn chwarter 4, gyda chadwraethwyr InnerWorld yn gweithio ochr yn ochr â phenseiri PEGWa i greu rhaglen waith ar gyfer atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw hanfodol ar yr adeilad. Ar ôl gwneud y gwaith brys hwn, bydd y penseiri wedyn yn datblygu Cynllun Rheoli Cadwraeth er mwyn rhoi sail i'n gwaith atgyweirio a chynnal a chadw yn y dyfodol.

## Gwersi i'w Dysgu a'r Dyfodol

Wrth gefnu ar y pandemig, rydyn ni wedi sylwi ar ychydig o newid yn sut y bydd ein gwesteion yn archebu lle ar gyrsiau. Mae llawer o bobl yn archebu yn hwyrach o lawer, gan effeithio ar ein gallu i gynllunio ac, os bydd angen, i ganslo cyrsiau nad ydyn nhw'n gwerthu. Rydyn ni hefyd wedi rhoi'r gorau i gynnig ystafelloedd rhatach i'w rhannu, gan ei bod hi'n ymddangos bod pobl yn llai parod i rannu ar ôl y pandemig.

Rydyn ni hefyd wedi'i chael hi'n anodd gan fod chwyddiant uchel yn effeithio ar ein costau uniongyrchol i ddarparu cyrsiau, gyda phrisiau bwyd yn enwedig yn codi'n aruthrol. Byddwn ni'n adolygu ein strwythur prisio i adlewyrchu'r cynnydd hwn, gan ofalu hefyd ein bod ni'n sicrhau bod ein cyrsiau mor fforddiadwy â phosibl. At hynny, er mwyn creu mwy o incwm, byddwn ni'n buddsoddi i farchnata Nant ar gyfer encilion yn ystod misoedd y gaeaf, gan nad oedd yn arbennig o llawn yn ystod 2022/23.



Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Ein Partneriaid 2022/2023

Cardiff University Prifysgol Caerdydd
Tafarn y Plu Llanystumdwy
Llyfrau Llwigar
barddas
Valleys Steps Camau'r Cymoedd
WWF
Ysgol Gynradd Rhosgadfan
RC Psych Royal College of Psychiatrists
Tŷ Cerdd Music Centre Wales
Prifysgol Bangor University
Ways of Working
Cyngor Llyfrau Cymru Books Council of Wales
Croeso i'n Coedwig Welcome to our Woods
the Rhys Davies Trust
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Gwyrddni Creu • Cymunedau • Gwyrdd Community • Climate • Action
Taliesin
The Great Hall Y Neuadd Fawr
Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru North Wales Wildlife Trust
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Black Mountains College
Ymddiriedolaeth Genedlaethol National Trust
Cadw
LLGC NLW Llyfrgell Genedlaethol Cymru The National Library of Wales
The National Lottery®
Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales
Sherman Theatr • Theatre
first campus
RCV UK Working to ensure that no-one in our community is lonely, hungry or frightened
Trafnidiaeth Cymru Transport for Wales
Mind Newport Casnewydd for better mental health o blaid gwell iechyd meddwl
Cyngor Gwynedd Council

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Strwythur, Llywodraethu & Rheoli 2022/2023



# Strwythur, Llywodraethu & Rheoli

## Dogfen Llywodraethu

Mae Llenyddiaeth Cymru yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn elusen gofrestredig, a ymgorfforwyd ar 19 Medi 2011 ac a gofrestrwyd fel elusen ar 23 Mawrth 2012. Sefydlwyd y cwmni dan Femorandwm Cymdeithasu a bennodd amcanion a phwerau'r cwmni elusennol ac fe'i llywodraethir o dan ei Erthyglau Cymdeithasu, a ddiweddarwyd yn 2019/2020.

## Recriwtio a phenodi ymddiriedolwyr newydd

Penodir ymddiriedolwyr newydd yn Gyfarwyddwyr ar y sefydliad ar ôl proses recriwtio agored a thryloyw, a diffinnir y broses honno yn yr Erthyglau Cymdeithasu. Penodir ymddiriedolwyr i gryfhau'r sgiliau a'r profiadau a gynrychiolir ar Fwrdd y Cyfarwyddwyr. Bydd pob ymddiriedolwr newydd yn cael pecyn cynefino a gwybodaeth am rolau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr, ynghyd â hyfforddiant ym maes llywodraethu elusennol.

## Strwythur y sefydliad

Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n arwain Llenyddiaeth Cymru, a'r Cyfarwyddwyr hefyd yw ymddiriedolwyr y sefydliad. Bydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn ac mae'n gyfrifol am gyfeiriad strategol y sefydliad ac am gynllunio ariannol cyffredinol. Mae'r Bwrdd yn dirprwyo gwaith y sefydliad o ddydd i ddydd i'r tîm gweithredol, o dan arweiniad y Cyfarwyddwr Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Artistig, sy'n cael eu cefnogi gan Uwch Dîm Arwain sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod y cynnydd a wneir tuag at gyflawni'r amcanion strategol a thargedau eraill.

## Staff Rheoli Allweddol

Staff Rheoli Allweddol y sefydliad yw'r Cyfarwyddwr Gweithredol, Claire Furlong a'r Cyfarwyddwr Artistig, Leusa Llewelyn; Rheolwr Gweithrediadau ac Ysgrifennydd y Cwmni, Alys Lewin; a Rheolwr Cyllid, Emma Richards. Mae tâl y Staff Rheoli Allweddol yn cael ei osod a'i gymeradwyo bob blwyddyn gan Gadeirydd y Bwrdd ac mae'n dilyn strwythur bandiau cyflog y sefydliad.

## MANYLION CYFEIRIO A GWEINYDDU

**Enw Elusen** Llenyddiaeth Cymru | Literature Wales
**Rhif cofrestru'r elusen** 1146560
**Rhif cofrestru'r cwmni** 07779153
**Swyddfa gofrestredig** Tŷ Newydd Writing Centre
Llanystumdwy, Cricieth
GWYNEDD
LL52 0LW

**Ymddiriedolwyr a wasanaethodd yn y cyfnod adrodd**
C. Charnell-White
N. Jerome
E Charles
C Austin
J D Ellis
A Finlayson
J O'Shea
D Roberts
O Taylor-Shaw
C Thatcher
C Dylan
R Harries


**Cyfarwyddwr Artistig** Leusa Llewelyn
**Cyfarwyddwr Gweithredol** Claire Furlong

**Ysgrifennydd y Cwmni** Alys Lewin

**Prif Fancwyr** CAF Bank
25 Kings Hill Avenue,
Kings Hill,
Kent
ME19 4JQ

**Archwilwyr** BPU Chartered Accountants
Radnor House
Greenwood Close
Cardiff Gate Business Park
CF23 8AA

**Llofnodwyd:**



Alys Lewin
Ysgrifennydd y Cwmni

Dyddiedig: 28.09.2023

**Gyda diolch i'r canlynol:**

**Ein Cyllidwyr:**

Cyngor Celfyddydau Cymru

Llywodraeth Cymru

Y Loteri Genedlaethol

Garfield Western Foundation

**Lluniau a dyluniadau:**

Camera Sioned

Dafydd Owen (FfotoNant)

Lindsay Walker Photography

Osian Grifford

Phil Boyd

Richard Outram

**Hefyd:**

Rhys Iorwerth

Llenyddiaeth
Cymru
Literature
Wales



Mae'r ymddiriedolwyr sydd hefyd yn gyfarwyddwyr yr elusen at ddibenion Deddf Cwmnïau 2006, yn cyflwyno eu hadroddiad gyda datganiadau ariannol yr elusen ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023. Mae'r ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu darpariaethau Cyfrifon ac Adroddiadau Elusennau: Datganiad o Arferion Cymeradwy sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (yn weithredol 1 Ionawr 2019) .

**STRWYTHUR, LLYWODRAETHU AC RHEOLAETH**
**Llywodraethol dogfen**
Rheolir yr elusen gan ei dogfen lywodraethol, gweithred ymddiried, ac mae'n ffurfio cwmni cyfyngedig, cyfyngedig trwy warant, fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cwmnïau 2006.

**CYFEIRIAD A MANYLION GWEINYDDOL**
**Rhif cofrestredig y cwmni**
07779153 (Lloegr a Cymru)

**Rhif elusennol y cwmni**
1146560

**Swyddfa Gofrestredig**
Canolfan Glyn Jones
Canolfan Mileniwm
Cymru
Bute Place
Caerdyd
d CF10
5AL

**Ymddiriedolwyr**

**Ysgrifennydd y Cwmni**
A Lewin

**Archwilwyr**
BPU Ltd
Cyfrifwyr Siartredig
Archwiliwr Statudol
Radnor House
Greenwood Close
Cardiff Gate Business Park
Caerdydd
CF23 8AA

**Prif Fancwyr**
CAF Banc
25 Kings Hill Avenue
Kent
ME19
4JQ

**DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR**

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr Llenyddiaeth Cymru at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Mae cyfraith cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol, yr adnoddau sy'n dod i mewn a'r broses o ddefnyddio adnoddau'r cwmni elusennol, gan gynnwys incwm a gwariant, yn y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- dilyn y dulliau gweithredu a'r egwyddorion a geir yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn synhwyrol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu sefyllfa ariannol y cwmni elusennol yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg, ac yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni elusennol ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod achosion o dwyll ac anghysondebau eraill.

Cyn belled ag y mae'r ymddiriedolwyr yn ymwybodol:

- nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y cwmni elusennol yn ymwybodol ohoni; ac
- mae'r ymddiriedolwyr wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi'u cymryd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac maent wedi sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Cymeradwywyd trwy orchymyn bwrdd yr ymddiriedolwyr ar ...................................... ac a llofnodwyd ar ei ran gan:

.................................................................. ........
Cathryn Ymddiriedolwr Charnell-White

**Barn**

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Llenyddiaeth Cymru (y ‘cwmni elusennol’) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, a’r rheini’n cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod a'r nodiadau sy’n cyd-fynd â’r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu o bwys. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yn cydymffurfio â’r gyfraith berthnasol ac â Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2023 ac o’r adnoddau sy’n dod i mewn a’r defnydd o adnoddau, gan gynnwys incwm a gwariant y cwmni elusennol, yn y flwyddyn a ddaeth i ben;
- wedi'u paratoi'n gywir ac yn unol â’r Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

**Sail ar gyfer y farn hon**

Rydym wedi cynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (y DU) a'r gyfraith berthnasol. Mae ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny’n cael eu disgrifio ymhellach yn yr adran am gyfrifoldebau'r Archwilwyr wrth archwilio'r datganiadau ariannol. Rydym yn annibynnol o'r cwmni elusennol yn unol â'r gofynion moesegol sy’n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol yn unol a'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth yr ydym wedi ei harchwilio yn ddigonol ac yn berthnasol er mwyn inni allu rhoi ein barn.

**Casgliadau ynglŷn â busnes gweithredol**

Wrth archwilio’r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i’r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi’r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi’i gyflawni, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, godi cwestiynau arwyddocaol ynglŷn â gallu'r elusen i barhau i fabwysiadau dulliau cyfrifyddu’r busnes gweithredol ar gyfer cyfnod o ddeuddeg mis fan lleiaf o'r dyddiad y mae'r datganiadau ariannol wedi eu hawdurdodi ar gyfer eu defnyddio.

Mae ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau’r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol wedi ei ddisgrifio yn yr adrannau perthnasol o’r adroddiad hwn.

**Gwybodaeth bellach**

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth bellach. Mae'r wybodaeth bellach yn cynnwys unrhyw wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, ar wahân i'r datganiadau ariannol ac Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol arnynt.

Nid yw ein barn ni ar y datganiadau ariannol yn ymwneud â'r wybodaeth bellach ac, ar wahân i'r graddau y datgenir hynny'n benodol yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad ar y cynnwys hwnnw.

Mewn cyswllt â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth bellach ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth bellach yn anghyson o ran sylwedd â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gawsom fel rhan o'r archwiliad, neu fel arall a yw'n ymddangos yn gamarweiniol o ran sylwedd. Os byddwn yn canfod anghysondeb o sylwedd neu gamddatganiadau ymddangosiadol o sylwedd, rhaid inni benderfynu a oes camddatganiad o sylwedd yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad o sylwedd yn y wybodaeth bellach. Os byddwn, ar sail y gwaith a wnaed gennym, yn casglu bod camddatganiad o sylwedd yn y wybodaeth bellach hon, mae'n ofynnol inni adrodd hynny. Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hynny o beth.

**Materion y mae angen inni roi adroddiad arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennym unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, sef materion y mae Deddf Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 yn ei gwneud yn ofynnol inni gyflwyno adroddiad ichi arnynt, os, yn ein barn ni:

- bod y wybodaeth a roddwyd yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr yn anghyson mewn unrhyw ffordd o ran sylwedd â'r datganiadau ariannol; neu
- nad yw'r cwmni elusennol wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth a'r holl esboniadau y mae eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

**Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr**

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr, mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni'u hunain bod y datganiadau hynny'n rhoi darlun cywir a theg. Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am ba bynnag gamau rheoli mewnol y mae angen eu cymryd yn nhyb yr ymddiriedolwyr i allu paratoi'r datganiadau ariannol heb fod ynddynt unrhyw gamddatganiad o sylwedd, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol gan ddatgan, os yw hynny'n berthnasol, unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol, a dylid defnyddio'r busnes gweithredol fel sail i'r cyfrifyddu oni bai bod yr ymddiriedolwyr yn bwriadu diddymu'r cwmni elusennol neu ddod â'i weithrediadau i ben, neu os nad oes unrhyw ddewis realistig arall ond gwneud hynny.

**Ein cyfrifoldebau ni wrth archwilio'r datganiadau ariannol**
Fe'n penodwyd yn archwilwyr o dan adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac fe wneir yr adroddiad hwn yn unol â'r Ddeddf a'r rheoliadau perthnasol a wnaed o dan y Ddeddf neu sy'n berthnasol o dan y Ddeddf.

Ein nod yw rhoi sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol, yn eu cyfanrwydd, yn ddatganiadau heb fod ynddynt unrhyw gamddatganiad o sylwedd, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (y DU) wastad yn canfod camddatganiad o sylwedd pan fydd un yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall, ac fe'u hystyrir yn rhai o sylwedd os gellid, boed yn unigol neu ynghyd, ddisgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd y defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Manylir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll:

